# Y TINCER

PRIS 60c

Rhif 323

Tachwedd 2009

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


# SWYN YN LOURDES

Roedd un o ferched Bow Street yn destun rhaglen ddogfen ar S4C ym mis Hydref 2009.

Cafodd Swyn Haf ei ffilmio ar gyfer Y Daith, cyfres o chwech o raglenni ar y sianel yn dilyn pererindodau gwahanol. Fe'i dilynwyd hi a 70 o bobl ifanc eraill wrth iddyn nhw deithio i dref Lourdes yn Ne-Orllewin Ffrainc ym mis Gorffennaf 2009 fel rhan o Bererindod Genedlaethol o Gymru. Mae Lourdes yn un o brif gysegfrannau'r Eglwys Gatholig ac mae'n denu tua chwe miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, yn eu plith nifer o gleifion sy'n chwilio am iachàd corfforfol neu ysbrydol.

Dangoswyd Swyn a'i ffrind Gwenllian Daniel o Aberystwyth yn gofalu am aelodau o'r Eglwys Gatholig oedd yn sâl, yn oedrannus neu oedd ag anableddau — ac na fyddai wedi gallu ymweld â Lourdes onibai am gymorth y gwirfoddolwyr ifanc. Yn ystod y rhaglen hefyd, fe welwyd Swyn yn darllen gweddiau'r ymbiliau yn ogof y Grotto — un o lefydd mwyaf sanctaidd Lourdes lle dywedir i'r Forwyn Fair ymddangos i ferch ifanc o'r enw Bernadette ym 1858.

Yn gyn-ddisgybl Ysgol Gynradd Rhydypennau ac Ysgol Gyfun Penweddig, mae Swyn bellach yn fyfyrwraig ail-flwyddyn ym Mhrifysgol Caergrawnt lle mae'n astudio Almaeneg a Sbaeneg.

Cafodd ei derbyn i'r ffydd Gatholig yn Eglwys Santes Gwenffrewi yn Aberystwyth ac eleni oedd y drydedd flwyddyn yn olynol iddi hi a Gwenllian fynd i Lourdes gyda Phererindod Cymru.

"Er bod crefydd dan y lach falle braidd yn y cyfryngau dyddie hyn, dydy hyn ddim yn wir - mae na lot o bobl gyda lot o ffydd yn gwneud teithiau ar draws y byd byd i fynd i rywle crefyddol a phobl yn gallu cyd-dynnu a gwneud gwaith da gyda'i gilydd," meddai Swyn.

"Dwi'n meddwl bod Lourdes yn rhywle sy'n dangos cryfder crefydd a'r pŵer sydd ganddo i ddod a phobl at ei gilydd."

*Cynhyrchwyd Y Daith: Dwy yn Lourdes* gan gwmni Unigryw o Aberystwyth ac fe ddarlledwyd y rhaglen Nos Sul 25 Hydref ond mae cyfle i weld i'w gweld o hyd ar wefan S4C tan 29 Tachwedd 2009.



# Apêl y Tincer

### Mae dyfodol y Tincer yn y fantol! Oes ots 'da chi?

Penderfynwyd argraffu y rhifyn yma mewn du a gwyn oherwydd prinder arian. Os am weld y Tincer yn parhau, a gobeithio mewn lliw, anfonwch eich cyfraniadau i'r Trysorydd

Paul Bevan
Felin Ddewi
4 Glan Ceulan
Penrhyn-coch, SY23 3HF
gan farcio yr amlen Cronfa Apêl y Tincer.




## GWERFYL

Roedd gan Cybi Sant ei gaer
Ym Môn, yn ei heithafion
Uwch grym a chyffro'r eigion.

Un o gaer y Cybi hwn
Aeth draw i Geredigion,
I gaer uwchben yr eigion.

Gwerfyl yw hi, Santes Llên,
Un a roes fri ar lyfrau,
Ac a gyflawnodd wyrthiau.

**Gwyn Thomas**

Tegwyn Jones, Cadeirydd Cyfeillion Cyngor Llyfrau Cymru, yn cyflwyno llythreniad o gerdd Gwyn Thomas i Gwerfyl Pierce Jones. (gweler t.13)

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 323 | Tachwedd 2009



Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG



## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**STORI FLAEN** - Alun Jones
Gwyddfor ☎ 828465

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd,
Llandre ☎ 828262

**IS-GADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen,
Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Paul Bevan, Felin Ddewi, 4 Glan-ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820 583
bevan.paul@gmail.com

**TREFNYDD Y CYFEILLION** - Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER** - Anwen Pierce

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch,
☎ 623660
Alwen Griffiths, Lluest Fach ☎ 880335
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# DYDDIADUR Y TINCER

## Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD RHAGFYR 3 a RHAGFYR 4 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI RHAGFYR 17.

**TACHWEDD 25** Nos Fercher Cyfarfod agored y Tincer yn festri Noddfa, Bow Street am 7.30

**TACHWEDD 26-27** Dyddiau Iau a Gwener Cwmni Mega yn cyflwyno Barti Ddu – sioe bantomeim gan Anrew Park a Craig Maclean yn Theatr Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth am 13.00 (Iau) a 10.00 ac 13.00 (Gwener)

**TACHWEDD 28** Dydd Sadwrn Cerdd-danton – canu cerdd dant di-stop o 11.00-17.00 yng nghanol y Sir. I ddilyn Cymanfa gerdd dant/werin; arweinydd: Bethan Bryn. Mynediad i'r gymanfa £3 Mwy o fanylion i ddilyn Trefnir gan Bwyllgor Cerdd Dant Eisteddfod yr Urdd 2010

**TACHWEDD 28** Dydd Sadwrn Ffair Nadolig Ysgol Feithrin Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch 10-12.00 Stondinau a Sino Corn.

**RHAGFYR 3** Nos Iau Ffair Nadolig Ysgol Penrhyn-coch yn yr ysgol; stodinau a Sion Corn rhwng 6.00-8.00

**RHAGFYR 3** Nos Iau Gwasanaeth Nadolig Aberystwyth - Aelwyd Ger y lli, Côr ABC, Côr Meibion Aberystwyth ac Ensemble Pres yng Nghapel Bethel, Aberystwyth am 7.00yh - £3 wrth y drws at Gronfa Apel Aberystwyth Ceredigion 2010.

**RHAGFYR 4** Nos Wener Noson goffi a raffl fawr; adloniant i ddilyn gan Beti, Eirwen ac Isaac yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor rhwng 7-8.00

**RHAGFYR 5** Dydd Sadwrn Ffair Nadolig Plaid Cymru Gogledd Ceredigion yn y Morlan, Aberystwyth rhwng 2 a 4 y prynhawn. Bydd stondinau amrywiol a bydd Siôn Corn yn galw ag anrhegion. Mynediad yn £1 i oedolion. Plant am ddim.

**RHAGFYR 13** Nos Sul Côr ABC yn cyflwyno 'Dilyn y Seren', i gynnwys 'Atgof o'r Ser' (Robat Arwyn), Eglwys Llanbadarn, 7.30pm. Tocynnau'n £10. Pensiynwyr £7 a phlant £5, ar gael o Siop Inc. Elw at Apêl Llanbadarn, Eisteddfod yr Urdd 2010.

**RHAGFYR 14** Nos Lun Merched y Wawr Rhydypennau yn Dathlu'r Nadolig

**RHAGFYR 17** Nos Iau Plygain yn Eglwys Sant Ioan am 7.30

**RHAGFYR 20** Nos Sul Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 6.00

**RHAGFYR 15** Nos Fawrth Cyfarfod PACT yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.00

**Y Tincer drwy'r post** - Pris 10 rhifyn - £9 (£19 i wlad y tu allan i Ewrop). Cysylltwch â Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE. ☎ 01970 828 889

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

## CEFNOGWCH EICH PAPUR BRO


TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
EWR
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741


ytincer@googlemail.com

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer Mis Hydref 2009.**

£25 (Rhif 259) Elizabeth Jones 25 Maes Ceiro Bow Street.
£15 (Rhif 122) Jean Davies Cnwc Y Deintur 6 Maes Y Garn Bow Street.
£10 (Rhif 258) Haf Ap Robert 103 Bryn Castell Bow Street.

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan ein Golygydd yn dilyn ymarfer côr Cantre'r Gwaelod Nos Sul Hydref 18ed 2009
Am restr o Gyfeillion 2009 gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeillion_y_tincer_2009.pdf

**Annwyl Olygydd,**
Mae cyfnod cyfansoddi Cân i Gymru 2010 wedi cyrraedd, ac eto eleni rydym yn chwilio am gyfansoddwyr mwyaf addawol Cymru. Llynedd cawsom ymateb rhagorol, gyda nifer o dalentau newydd yn ymgeisio am y brif wobr o ddeng mil o bunnau. Mae'r cyfnod ymgeisio eleni yn rhedeg o 15 Hydref hyd 11 Rhagfyr. Rydym yn croesawu caneuon gwreiddiol o bob math, gan obeithio bydd diddordeb gan rai o'ch darllenwyr i roi cynnig arni.

Dyma'r gwobrau ariannol sylweddol sydd ar gael i'r sawl sy'n llwyddiannus;

1af = £10,000
2ail = £2,000
3ydd = £1,500
Gwobr arbennig (Rhodd y rheithgor) = £500
Deg gwobr o £100 am gyrraedd rhestr fer estynedig.

Am fwy o wybodaeth, rheolau llawn y gystadleuaeth a ffurflen gais ewch i s4c.co.uk/canigymru
neu cysylltwch gyda'r tîm cynhyrchu yn uniongyrchol;
E-bost - canigymru2010@thepopfactory.com,
Ffôn: 01443688530

Gyda diolch,

Ffion Humphries

### CD am ddim!

Mae'r Tincer wedi cael rhai CDs 'Pecyn Dewis Iaith' sy'n eich galluogi i ddefnyddio cyfrifiadur Cymraeg adref neu yn y gwaith. Ffrwyth partneriaeth rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Microsoft Corporation yw'r disgiau, ac maent yn gweithio ar Microsoft Office 2003 neu 2007 a/neu Microsoft Windows XP Professional, Home Edition neu Tablet PC, neu Windows Vista. Mae modd i bawb rannu'r un peiriant, waeth beth eu gallu yn y Gymraeg, a chael dewis iaith awtomatig.

Mae'r CDs i'w cael AM DDIM oddi wrth Anwen, yr ysgrifennydd (anwenmai@hotmail.co.uk), ond nodwch mai nifer cyfyngedig sydd ar gael, felly y cyntaf i'r felin yw hi!


Hefyd, mae gan Anwen gopi o Adolygiad Blynyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2008/09, ynghyd a chopi o 'Arolygon Defnydd Iaith' y Bwrdd. Plis cysylltwch os am eu benthyg.

### Perfformiad o'r 'Meseia' yn Aberystwyth

Mae'n briodol fod Cymdeithas Gorawl Aberystwyth yn nodi ei bod hi'n 250 mlynedd er pan fu farw George Frideric Handel gyda pherfformiad o'i oratorio odidog 'Y Meseia'. Fe'i cynhelir yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau, ar 12fed Rhagfyr am 8 o'r gloch. Bydd cerddorfa broffesiynol lawn yn cyfeilio i'r côr, dan arweiniad Dr David Russell Hulme, a chroesewir pedwar o unawdwyr profiadol sydd wedi canu gyda'r côr o'r blaen, sef Nicki Kennedy (soprano), Fiona Kimm (mezzo-soprano), Wynne Evans (tenor) ac Adrian Powter (bariton). Mae hon yn argoeli i fod yn noson gyffrous i'r cantorion a'r gynulleidfa fel ei gilydd.

Mae pris y tocynnau'n amrywio o £10.50c. i £3.50c., ac ar gael yn swyddfa docynnau'r Ganolfan neu gan June Wilson, ysgrifennydd y côr, ar 01974 272476.

**CYSYLLTWCH Â NI**
ytincer@googlemail.com

GWAITH GARDDIO

Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

HEIRIO JONES HIRE
• Mini Digger
1½ ton - 3 ton iw gael
• Dumpers
• Trailers
CASGLWR SGRAP
YN EISIAU TRACTORAU A PHEIRIANNAU FFERM
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

CLWB CŴL
Penrhyn-coch
Ar Agor Llun - Gwener
3.30 - 5.30
£5 y sesiwn . £4 ail blentyn
Bwyd a Diod Iachus yn Gynwysedig
Gofal Plant Cofrestredig
I fwcio cysylltwch â Nicola Meredith 07972 315392
Neu cipiwch i mewn i'r clwb ar ôl Ysgol
Celf a Chreft, Gemau tu mewn ag allan, Wii a Playstation, Pwll Pelau a mwy!


## TREFEURIG

### Ymddeoliad hapus

Ymddeoliad hapus a phob dymuniad da i Llinos Evans, Cartrefle gynt, ar ei hymddeoliad o'i swydd yn y Llyfrgell Genedlaethol.

ytincer@googlemail.com

# 30 Mlynedd 'Nôl



Ar Hydref 23ain (1979) agorwyd Cyfnewidfa Deleffon newydd yn Bow Street a newidiwyd rhifau ffôn Bow Street i gyd i 'Aberystwyth'. Un o blant yr ardal, Mr Les Lewis, mab Mr a Mrs Trefor Lewis, Llys Alban, Tregerddan oed clerc y gwaith a fu'n gyfrifol am sefydlu a threfnu'r Gyfnewidfa newydd. Tynnwyd y llun uchod y tu allan i'r Gyfnewidfa ar ddiwrnod yr agoriad swyddogol. O'r chwith Mr Gwynant Evans, a fydd yn gofalu am y lle yn y dyfodol, Mr Gordon Lees, dirprwy Glerc y Gwaith, a Mr Les Lewis.
Dyma pryd y newidiwyd rhifau ffôn tri digid e.e. 123 i rif chwe rhif yn dechrau efo 828 neu 820.

# Y BORTH

## Colled

Bu farw Mrs Mary Wynne Williams ym Mhlas Cwmcynfelin ar Dachwedd 28ain, (gynt o'r Wyddgrug) yn 98 mlwydd oed. Roedd yn chwaer i'r diweddar Huw John Evans ac yn fodryb i John Hefin (Ynyswen). Cafodd ofal arbennig yn y Cwm dros 9 mlynedd olaf ei bywyd. Caiff ei llwch ei wasgaru yn ôl yn yrs Wyddgrug ar ôl gwasanaeth yn yr amlosgfa ar Dachwedd 11eg. Amnest Rhyngwladol

## Amnest Rhyngwladol

Cynhaliodd Jenny a Stuart Evans, Cliff House eu swper blynyddol i godi arian ar gyfer Amnest Rhyngwladol ym mis Hydref, gan gasglu'r swm anrhydeddus o £310. Llongyfarchiadau.

## 'Pwy sy'n Becso?'

Cynhaliwyd digwyddiad arbennig ar draeth y Borth ar Hydref y 24ain, un o 5,000 o ddigwyddiadau '.350 Pwy Sy'n Becso?' a drefnwyd ar y dyddiad hwn gyda'r bwriad o dynnu sylw at lefelau carbon yn yr awyr. Arwyddocâd y teitl yw mai .350 rhan o bob miliwn yw'r cyfanswm mae gwyddonwyr yn ei ystyried fel y lefel uchaf, diogel a derbyniol o garbon dioxide yn yr awyr, ac o ystyried bod y lefelau cyfredol eisoes yn .390 teimlwyd bod angen tynnu sylw at y ffaith. Penderfynwyd canolbwyntio ar lefelau'r môr yn y Borth wrth lunio'r digwyddiad, gan adeiladu stafell fyw (muriau a chelfi) ac eisteddodd cefnogwyr y fenter yn eu cadeiriau esmwyth tra daeth y llanw i mewn.

Digwyddiad arall oedd sesiwn cynnal a chadw beiciau gan Teresa Walters, ymgais i berswadio trigolion y Borth i ddefnyddio'u beiciau yn amlach. Rhoddwyd bylbiau trydan ynni isel i ffwrdd yn rhad ac am ddim hefyd.

## Gwobr Fawr i Nisa y Borth

O bob siop yng ngwledydd Prydain, Nisa, y Borth, dan reolaeth Derek a Gwenda Edwards sydd wedi gwella a chynyddu o ran safon. Dywedodd beirniaid y '2009 Retail Industry Awards', "Mae eu cyfraniad fel gŵr a gwraig wedi bod yn aruthrol ac yn dangos gweledigaeth glir i'r dyfodol'. Enillwyr eraill yn y seremoni oedd 'Morrisons','Asda','Tesco', 'Sainsbury's' i enwi ond ychydig. Gallwn, fel trigolion y Borth ond cytuno â'r feirniadaeth! Llongyfarchiadau mawr iawn!

## Y Gerlan

Fore Sul 1af o Dachwedd cafwyd oedfa arbennig dan arweiniad y Gweinidog, y Parchg Wyn Rh. Morris. Yn ystod y gwasanaeth bedyddiwyd Harri Morgan James, mab ieuengaf Gwyn ac Yvonne James, Llanilar ac ŵyr John a Glenys James, Brynffynnon (Moelcerni). Roedd cynulleidfa dda o berthnasau a chyfeillion yn bresennol, heb anghofio Jac, brawd mawr Harri, ynghyd â Ceredig Evans ei hen dad-cu. Yr organydd oedd Eurgain Rowlands, a rhoddwyd y blodau gan Glenys James.



## Eglwys Sant Mathew

### Gwasanaeth Diolchgarwch

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn Eglwys Sant Mathew, Ddydd Sul, 4 Hydref. Daeth cynulleidfa fawr o blwyfolion ac ymwelwyr at ei gilydd yn yr Eglwys, oedd wed'i haddurno drwyddi draw a blodau, ffrwythau a llysiau.

Hyfryd oedd gweld plant yr Ysgol Sul yn chwarae rhan bwysig yn y Gwasanaeth. Cludwyd offrymau o ddŵr, bara, llysiau a ffrwythau at yr allor gan y plant, a phob un, yn ei dro, yn adrodd gweddi neu gerdd fer. Darllenwyd y llithoedd gan Megan Trubshaw a Hazel Van Son. Gofalwyd am y casgliad gan Sam Trubshaw a Jonah Evans. Canwyd emyn o foliant gan y plant i gyd, o dan arweinyddiaeth eu hathrawes, Joy Cook.

Gofalwyd am y Gwasanaeth gan y Ficer, y Parchg. Cecilia Charles. Yr organydd oedd Mr Michael James.

## Croeso 'nôl

Croeso mawr iawn yn ôl i'r Borth i Esther Prytherch. Mae Esther, ei gŵr Rhodri a'u tri o blant, Hari, Jacob a Hanna wedi dod i fyw am gyfnod yn Gwynt y Môr.

## Marwolaeth Mr Leonard Fielding

Dydd Iau, 22 Hydref, yn Ysbyty Machynlleth, bu farw yn dawel Mr Leonard (Len) Fielding, Kidderminster House. Yr oedd yn 94 oed.

Cofir amdano fel dyn cwrtais, caredig a chyfeillgar, a wasanaethodd fel pobydd poblogaidd Y Borth am dri deg o flynyddoedd, o'r 1960au ymlaen. Bu'n Ðr gweddw am flynyddoedd maith ar ôl gofalu'n dyner am ei wraig Margaret Mary (Pat) yn ei dyddiau olaf. Cynhaliwyd y Gwasanaeth Angladdol yn Eglwys Sant Mathew ddydd Gwener, 30 Hydref o dan ofal y Ficer, y Parchg Cecilia Charles. Dilynwyd y Gwasanaeth gan gladdedigaeth ym mynwent Sant Mathew. Cydymdeimlir yn ddiffuant â'i blant Andrew, Fenton a Gillian ac â'r teulu i gyd yn eu colled a'u hiraeth.

## Dydd Sul Y Coffa

Roedd Eglwys Sant Mathew yn llawn i'r ymylon Ddydd Sul, 8 Tachwedd, pan ddaeth aelodau o'r Lluoedd Arfog ac o bob sefydliad ac enwad yn y pentref at ei gilydd ar gyfer y Gwasanaeth Coffa blynyddol. Gofalwyd am y Gwasanaeth gan y Ficer, y Parchg Cecilia Charles a phregethwyd gan Y Parch. Ddr David Williams.

Dechreuodd y Gwasanaeth gyda gorymdaith o Faneri at yr allor. Gosodwyd torchau wrth Restr y Gwroniaid a chadwyd distawrwydd dwy funud cyn i'r Cyngh. Ray Quanr MBE ddarllen enwau'r rhai a gwympodd yn rhyfeloedd y byd. Canwyd y Caniad Olaf a Chaniad y Bore ar yr utgorn gan Mr Jason Lewis. Darllenwyd y llithoedd yn Saesneg ac yn Gymraeg gan Mrs Rachel Rowlands DL. MBE a'r Parchg Cecilia Charles. Cymerwyd rhan yn y gweddïau gan Scowtiaid Y Borth. Yr ystlyswyr oedd Mr Alun Jenkins (RNLI) ac Mr Aled Jenkins (Gwasanaeth Tân ac Achub). Yr organydd oedd Mr Michael James. Dilynwyd y Gwasanaeth gan ginio ysgafn yn Neuadd Gymunedol Y Borth, wedi'i drefnu gan aelodau o'r Lleng Brydeinig.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr iawn i Sarah Humphreys, gynt o 22 Cae Gwylan, Y Borth, ac Aled Davies, Fferm Goyallt, Llangeithio ar enedigaeth mab, Sion, ddiwedd mis Hydref, ŵyr i Susan a Maldwyn Williams, Heol Aberwennol, Y Borth.

Hefyd i Mat a Aine Teasdale, Hostel Ieuenctid Y Borth, ar enedigaeth Alwyn Dermot Barnaby ym mis Medi, brawd bach newydd i Eimear.

## Pen Blwydd Hapus

Anfonwn bob dymuniad da at Miss Kathleen Jones, Headlands, Y Graig, a gyrhaeddodd ei phen blwydd yn 90 oed ar yr 8fed o Dachwedd. Dathlodd Kathleen gyda pharti i'w ffrindiau lawer yng Nghaffi "Boulders" ar y diwrnod cynt.

## Cymdeithas Gymraeg Y Borth a'r Cylch

Cyfarfu'r Gymdeithas Gymraeg yn Festri Capel y Gerlan, nos Fercher, 7 Hydref. Y Cadeirydd oedd y Parchg. Wyn Rh. Morris. Gan groesawu'r aelodau i gyfarfod cyntaf sesiwn 2009-10, fe ddiolchodd i Mr Gwynfryn Evans am ei waith fel Cadeirydd dros y flwyddyn ddiwethaf. ac am drefnu, gyda'i wraig Eryl, wibdaith haf mor bleserus. Bydd yn anodd iawn dweud ffarwel, cyn bo hir, wrth yr Athro Des a Mrs Nansi Hayes, fydd yn symud i fyw i Gaerfyrddin. Talodd y Parchg. Wyn Morris deyrnged iddynt ac yn arbennig, yn yr achos yma, i Nansi, sydd wedi gwasanaethu fel Ysgrifennydd diflino'r Gymdeithas ers 1997. Etholwyd swyddogion am y flwyddyn i ddod fel a ganlyn:
**Is-Lywydd**: Mrs Mair Lewis
**Ysgrifennydd**: Mrs Llinos Evans
**Trysorydd**: Mr Glynne Evans
Yn draddodiadol, noson y Llywydd yw noson cyntaf pob sesiwn newydd yn hanes y Gymdeithas. Dros ugain mlynedd yn ôl, fe ddarparodd y Parchg. Wyn Morris hanes fideo Terfysgoedd Beca, wedi'i seilio ar lyfr Pat Mulloy, cyn-bennaeth C.I.D. Heddlu Dyfed-Powys. Fe ddechreuodd â'r adnod; "Tydi, ein chwaer, boed iti fynd yn filoedd o fyrddiynau, a bydded i'th ddisgynyddion etifeddu porth eu gelynion" (24 Gen. 60), oedd wedi ysbrydoli arweinwyr y terfysgoedd i godi, ym 1839, yn erbyn gorthrwm y cwmnïau tyrpeg, oedd yn codi crocbrisiau ar ffermwyr a chertmyn i ddefnyddio'r ffyrdd. Ymestynnodd y symudiad i gofleidio achos anghyfiawnder cymdeithasol ymhobman, gydag ymosodiadau ar dlotai a chyda phrotestiadau ffyrnig yn erbyn degymau'r Eglwys Anglicanaidd. Er i rai o'r arweinwyr gael eu cosbi'n llym, fe drefnwyd Comisiwn Brenhinol i chwilio i mewn i gwynion y terfysgwyr. O ganlyniad, gostyngwyd neu ddiddymwyd y tollau ac fe sefydlwyd Byrddau Llywodraethol i ofalu am gyflwr y ffyrdd. Diolchwyd i'r Parchg. Wyn Morris gan yr Athro Des Hayes ac fe ddaeth noson brysur i ben gyda choffi a sgwrs o gwmpas y ford.

## RNLI

Codwyd dros £352 o ganlyniad i Fore Coffi yng Nghaffi "Boulders" ddydd Iau, 29 Hydref. Diolchir i Gwenda a Derek yn "Boulders" ac i bawb a gefnogodd yr achlysur hwn er budd yr RNLI.

## Y Neuadd Goffa

Cynhaliwyd dawns yn y Neuadd Goffa ar nos Sadwrn 7 Tachwedd i ddathlu agoriad swyddogol y Neuadd ddeng mlynedd yn ôl bron i'r diwrnod. Braf oedd gweld y lle yn llawn o bobl yn cymdeithasu ac yn dawnsio i ddau fand, sef Aber Jazz a Free Beer. Diolchodd y Cynghorydd Ray Quant i Derek Davies, Elidir, am ei wasanaeth diflino dros y blynyddoedd fel gofalwr y Neuadd a chyflwynwyd rhodd iddo wrth iddo ymddeol o'r swydd. Ar ôl hynny, diolchodd y Cynghorydd Jackie Lawrence i Ray am ei waith caled a'i ymroddiad i godi'r holl arian i sefydlu'r Neuadd. Llongyfarchiadau mawr i Rob a Delyth Hunt am drefnu noswaith mor hapus a llwyddiannus.



## Ymweliad De Propere Fanfare

Ym mis Awst eleni croesawodd 'Côr y Gors' (Côr y Borth) fand gorymdeithiol o Gent, Gwlad Belg i'r pentre am bron i wythnos. Roedd y côr wedi dod ar eu traws ddwy flynedd yn ôl mewn gŵyl yn y wlad honno. Nick Jones, arweinydd y côr, ynghyd â nifer fawr o weithwyr diwyd o'i gôr a drefnodd yr ymweliad dros rhyw flwyddyn o gyfnod. Cawsant lety gan drigolion y pentref, yr Hostel Ieuenctid a 'Pebbles' tra gwersyllodd nifer ohonynt yn Ynys Fergi. Paratowyd eu bwyd gan eu byddin bach o gogyddion, 120 o brydiau ddwy waith y dydd. Efallai i chi sylwi ar babell syrcas fawr- dyna oedd eu man cyfarfod a chymdeithasu.

Ar ôl cyrraedd, croesawyd y côr yn swyddogol yn Amgueddfa Ceredigion gan Faer Aberystwyth, Trevor Shaftoe, Teresa Walters ac eraill, yna ymlaen i roi perfformiad hollol anhygoel yn yr haul, ar y prom y tu allan i'r bandstand. Cawsant dderbyniad twymgalon dros ben â thorf enfawr yn eu gwylio- a phawb yn ddi -wahan yn gwenu ac yn mwynhau.

Drannoeth cafwyd perfformiad ar draeth y Borth. Roedd Nick wedi cyfansoddi darn arbennig ar gyfer y côr, (70 o gantorion) a band De Propere Fanfare (85 o offerynwyr) a daeth tyrfa fawr i wrando, unwaith eto yng ngolau haul hyfryd, prin Awst, o'r traeth ac hefyd o'r creigiau uwchben- llwyfan dramatig dros ben! I ddilyn- parti blynyddol y Carnifal ar y traeth- rhesi o fyrddau ar Penro a phawb yn mwynhau bwyd, dawnsio a chwmnïaeth difyr dros ben.

Y prynhawn canlynol, roedd y band yn chwarae mewn gŵyl ym Mhontardawe, a'r diwrnod wedyn yn Llandrindod. Cawsant ddiwrnod o saib ar eu diwrnod olaf, er chwaraewyd gêm bêl- droed doniol tu hwnt y noson honno- y Borth yn erbyn gwlad Belg gyda rhyw 30 o chwaraewyr ym mhob tîm a set o reolau digon 'gwreiddiol'! Daeth yr ymweliad i ben gyda chyngerdd byrfyfyr, hwyliog iawn yn y babell fawr. Roedd hi'n dawel iawn yma ar ôl iddynt fynd a llawer o aelodau gweithgar y côr â golwg hynod flinedig, ond bodlon iawn ar eu hwynebau.
www.deproperefanfare.be



## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Isaac Evans (un ar ddeg oed), Cliff House am ennill medal aur a dwy fedal arian mewn gala nofio yn Llanelli yn ddiweddar, tra enillodd ei frawd canol Jonah (naw oed) fedal arian.

Llety
Maes-y-môr
Aberystwyth
o £20 y noson
Ystafell yn unig . Teledu . Te a choffi .
Wi Fi am ddim . Parcio. Shed i feics
www.maesymor.co.uk
Ffon: 01970 639 270

# CLWB GOLFF Y BORTH AC YNYS-LAS

Ar y 9fed Hydref cynhaliwyd noson wobrwyo yr Adran Iau gyda dros 70 o chwaraewyr, teulu, ffrindiau a noddwyr yn mynychu. Yn ystod y noson cyflwynwyd gwobrau i enillwyr o dros 30 o gystadlaethau a gynhaliwyd dros gyfnod yr haf. Diolch i'r noddwyr am eu cefnogaeth eleni eto i'r cystadlaethau yma.



Yn y llun gweler prif enillwyr y noson: Bryony James (Llanbadarn), enillydd Nett y Cwpan Jiwbili; Rhodri ap Dafydd (Goginan), enillydd Nett y Bencampwriaeth Iau dros 36 twll; Zach Galliford (Y Borth), enillydd y Stableford Roll-up Trophy, enillydd gross y Bencampwriaeth Iau dros 36 twll ac enillydd Gross y Cwpan Jiwbili, a Gwion ap Dafydd (Goginan), enillydd y Continental Diamond Matchplay Jiwbili.



Yn y llun gweler Elis Wyn Lewis o Garreg Wen, Bow Street, gyda'r golffiwr proffesiynol Nick Dougherty yn St Andrew's yn yr Alban ym mis Awst eleni pan oedd Elis yn cystadlu yn rownd terfynol cystadleuaeth yr HSBC Wee Wonders.

# DOLAU

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr a Anna ac Elfyn, Tŷ Nant ar enedigaeth Lois Elfyn canol mis Hydref. Mae'r teulu bach wrth eu bodd.

### Priodas

Ar Hydref 17eg cynhaliwyd priodas Eleri, merch Dafydd a Mair Evans, Madryn, Dolau a Xavier, mab Mr a Mme Claude Quayzin, Divonne Les Baines, Dwyrain Ffrainc. Cafwyd gwasanaeth dwyieithog gan y Parchg Richard Lewis. Yr organydd oedd Mrs Mair Evans, a chafwyd datganiad ar y viola gan Miss Margaret Waters. Mae'r pâr ifanc wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd.



**CYSYLLTWCH Â NI**
ytincer@googlemail.com

# DÔL-Y-BONT

### Dathlu pen blwyddi

Bu dipyn o ddathlu yng Nghysgod y Gwynt ddechrau Tachwedd gan i'r efeilliaid Jason a Mark Lewis ddathlu eu pen blwydd yn 21ain a'u mam Annette ychydig bach yn hÐn ac wedi cyrraedd yr hanner cant. Pen blwydd hapus i chi eich tri!!

### Symud ardal

Mae Mr a Mrs Dave Potts wedi symud o Glen Afon i fyw i Lerpwl. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref newydd a gobeithiwn eu gweld yn ôl yn ymweld yn achlysurol.

### Croeso

Croeso i Tammi a'i phlant Dalleston, Asher, Yemaya ac Anansie i Tanrallt. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith a da i'w deall fod Tammi yn mynychu gwersi dysgu Cymraeg. Croeso hefyd i Ken a Christine Roberts sydd wedi ymgartrefu yn Cwmdwylan.

Gwasanaeth CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

M. Thomas
Plymwr lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymwr
Prisiau rhesymol
Ffôn symudol 07968 728 470
Ffôn ty 01970 820375

MORRIS & READ
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH TRWSIO . TIWNIO M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
9a.m. - 1p.m. Sadwrn
GAREJ CWRT
PENRHYN-COCH
ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth
820 090

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

# BOW STREET

## Suliau Rhagfyr

http://www.capelygarn.org/

**Y Garn**
10.00 a 5.00
6 Dr Rhidian Griffiths
Nicholas Bee
13 10.00 Oedfa Nadolig y plant
20 J.E. Wynne Davies Bugail
25 9.00 Oedfa gymun dan ofal y Bugail
27 10.00 Oedfa gymun Bugail (bore yn unig)

**Noddfa**
6 Oedfa am 2.00. Gweinidog
13 Oedfa am 10.00. Y Parchg. Ddr. John Tudno Williams. Cymundeb
20 Oedfa am 5.00. Nadolig Noddfa
24 Oedfa Noswyl Nadolig am 11.30 yr hwyr
25 Uno yn Y Garn
27 Uno yng Nghartref Tregerddan am 3.30

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Aled Jac, mab Rhydian a Megan Phillips, Cleve, Awstralia, ar ddathlu ei ben blwydd cyntaf ar Dachwedd yr 8fed. Gyda chariad mawr oddi wrth Mam-gu a Dad-cu (Louisa ac Alun), Wncwl Siôn ac hefyd dy Hen Fam-gu a Thad-cu Tregerddan.

## Ennill cadair Eisteddfod Llanarth 2009

Angharad Fflur Jones, o Flwyddyn 13 a phrif ferch Ysgol Gyfun Penweddig, enillodd Tlws yr Ifanc a Chadair Eisteddfod Llanarth ddechrau Hydref eleni. Llongyfarchiadau mawr iddi. Dyma oedd ganddi i'w ddweud ar ôl ennill ei gwobr ddiweddaraf-

Sioc o'r ochr orau oedd clywed fy mod wedi ennill cadair Eisteddfod Llanarth ar fy nghais cyntaf. Profiad bythgofiadwy oedd y seremoni gadeirio ynghanol cymuned weithgar a chlos fel un Llanarth. Pleser oedd cael derbyn cadair fach fel tlws, wedi'i saernïo gan A Dafis o Ysgol Dyffryn Teifi. Diolch i Adran Gymraeg Ysgol Penweddig am ei holl gymorth fel arfer. Dyma ddyfyniad o un o'r darnau a ysgrifennais, sef Ymson y Carcharor:



"A nawr wrth i mi sefyll ar glogwyn fy mhlentyndod yn cofio'r cwbwl, llifa un deigryn i lawr fy moch. Nid deigryn o boen mwyach, ond deigryn o ryddhad bod y cwbwl drosodd. Wrth edrych i lawr ar y goleudy'n teyrnasu dros y creigiau, gwn bod hynny'n symbol o fy ngorffennol a'r môr heddychlon ar y gorwel yn symbol o'r rhyddid sydd o fy mlaen." Mae Angharad yn byw yn Bow Street, ar stad Y Garreg Wen. Mae ei mam, Mrs Rhiannon Jones, yn athrawes yn Ysgol Penweddig ac yn gyn bennaeth ar Ysgol Trefeurig.



## Clwb Cerdded Rhydypennau

Bydd Clwb Cerdded Rhydypennau yn cyfarfod bob dydd Mawrth wrth y Neuadd am 1:00 o'r gloch os na fydd y tywydd yn rhy ddrycinog. O dan arweiniad Rhys Thomas byddwn ni'n cerdded ac erbyn hyn mae ganddo gyfanswm o ryw 60 taith o fewn yr ardal — digon bob dydd Mawrth am flwyddyn felly. Rhaid i'r cerddwr ddiolch i Rhys am fod o gymorth iddynt gael y cyfle i ddod i adnabod eu cynefin cystal.

Ar ddydd Mawrth y 13 o Hydref roedd y criw cerdded yn ddigon hyderus i anelu am yr Wyddfa. Dechrau'n fore felly ac anelu am Rhyd-ddu cyn ymlwybro am y copa gan ddilyn Denise, sy'n hen gyfarwydd â'r llwybr. Cyrraedd y copa a mwynhau golygfa fendigedig ddi-gwmwl — peth amheuthun iawn ar gopa'r Wyddfa — a chael cyfle i werthfawrogi gogoniant byd natur ar ei orau. Y rhyfeddod mwy oedd i Megan Rogerson gyfarfod â'i chwaer, Annwen yn ddiarwybod wrth i ni fwynhau lletygarwch y llety newydd ar y copa. Diolch i'w merch Leila am dynnu'r llun, cyn i ni fwrw yn ôl i lawr wedyn i Lyn Cwellyn yn hapus a blinedig. I gloi'r diwrnod cofiadwy cafwyd pryd o fwyd yn y Llew Coch Dinas Mawddwy

Diolch i Rhys am drefnu'r diwrnod ar ein rhan.

## Chwiorydd Y Garn

Cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch y Chwiorydd brynhawn Mercher 7 Hydref. Llywyddwyd y gwasanaeth gan Gwenda Edwards ac ar ôl croesawu pawb soniodd am rai o'r ffyddloniaid oedd yn methu bod yn bresennol, sef Vera Lloyd, Nest Davies a Gaenor Hall, gan ddymuno gwellhad buan iddynt. Lluniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Judith Morris a chymerwyd rhan gan Ann Wyn Jones, Beryl Hughes, Meinir Roberts, Ellen Evans, Lisabeth Lloyd Jones, Gwenan Rhys Price, Meinir Lowry, Shân Hayward, Judith Morris a'r ddwy Mary Thomas. Cyfeiliwyd gan Kathleen Lewis. Cyflwynwyd y casgliad i hybu gwaith Ffagl Gobaith a'r casglyddion oedd Nans Morgan ac Elina Davies. Diolchodd Gwenda Edwards i bawb a gymerodd ran ac i Judith Morris am baratoi gwasanaeth llawn defosiwn a diolchgarwch i Dduw am ei holl roddion i ni.

Cyfarfu aelodau Cymdeithas y Chwiorydd brynhawn Mercher 4 Tachwedd gyda Gwenda Edwards yn llywyddu ac yn croesawu. Arweiniwyd mewn defosiwn gan Mary Thomas, Dôlgelynen a Llinos Dafis oedd wrth yr organ. Soniwyd am y Ffair Nadolig sydd i'w chynnal yn y Neuadd ar 28 Tachwedd.

Cawsom brynhawn diddorol iawn yng nghwmni Dilys Jones, Aber-arth a fu'n sôn am ei bywyd ar ôl ymddeol. Mae Dilys yn ferch i'r ffermwyr adnabyddus Tom Evans a'i briod Troed yr Aur, enillwyr cyson yn Sioe Llanelwedd. Mae'n briod â Gwilym, brawd Nans Morgan, a buont yn ffermio yn Llanbadarn, Pennant, cyn ymddeol i gyrion Aberarth. Ar ôl graddio mewn Astudiaethau Ffilm yng Ngholeg Prifysgol Llanbedr Pont Steffan mae wrthi ar hyn o bryd yn ymchwilio i hanes y Ffilm Gymraeg a'i chymharu â ffilmiau Gwlad y Basg. Trafododd llawer o'r ffilmiau Cymraeg a welwyd mewn sinema ac ar y teledu gan gyferbynnu llawer ohonynt oedd yn dangos agwedd wahanol o gymdeithas. I gloi prynhawn buddiol cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a lluniaeth oedd wedi'i baratoi gan chwiorydd Llandre.

## Merched y Wawr, Rhydypennau

A sylwoch chi bod aelodau Merched y Wawr Rhydypennau yn cerdded yn dal-syth ac yn fwy ystwyth yn ddiweddar? Wedi gwrando ar gynghorion Sue Jones Davies y maent. Sue oedd y siaradwraig wadd yng nghyfarfod mis Hydref o'r gangen a bu pawb yn dilyn ei hesiampl. Dangosodd i ni sut i gadw'r corff yn ystwyth drwy wneud ymarferion syml a'u gwneud yn ddyddiol. Teimlai pawb eu bod wedi cael budd o'r symudiadau a'r bwriad yn awr yw ymarfer yn gyson!

Yn ystod y cyfarfod trafodwyd busnes y gangen a'r mudiad. Croesawyd dwy aelod newydd a bu i bawb gymdeithasu dros baned wedi ei pharatoi gan Margaret a Lis. Enillwyd y raffl gan Jean.

Ar Ragfyr y 14eg byddwn yn "Dathlu'r Dolig" drwy ganu carolau o gwmpas y pentref.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Anita a Dylan Williams, 47 Bryncastell, ar enedigaeth merch ar ddiwedd mis Hydref, chwaer fach i Sophie a Lucy. Dymuniadau gorau i'r teulu i gyd.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mair Lewis a'r teulu, Maes Ceiro, ar farwolaeth ei brawd ar 20 Tachwedd.

# MADOG, CAPEL DEWI A CEFN-LLWYD

### Suliau Rhagfyr

2.00 o'r gloch
6 Rhidian Griffith
13
20 J.E. Wynne Davies
27 Bugail

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Angharad Rowlands, Talar Deg sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais;

Hefyd Catherine Thomas, Bronheulog, a dreuliodd gyfnod yn yr ysbyty.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mrs Myfanwy Pugh, Fron Ddewi, ar golli chwaer yng nghyfraith;

Hefyd teulu'r Fronfraith ar golli modryb, sef Mrs Sandie Pugh, Comins-coch;

Hefyd Dai a Lyn Evans a'r teulu, Deilyn ar golli tad Lyn — Mr John Edwards, Pen-y-Garn. Cofiwn am Mr Edwards yn byw am flynyddoedd ar fferm Peithyll, Capel Dewi, a derbyniodd fedal yn y Sioe Frenhinol am ei wasanaeth hir.

### Croeso

Croeso i Shirley, Megan a Siân i Llain y Felin.

### Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yng Nghapel Madog o dan ofal y gweinidog, y Parchg Wyn Rh. Morris. Croesawodd pawb ynghyd, gan gynnwys cwmni ffrindiau o eglwysi'r ardal. Y pregethwr gwadd oedd y Parchg J. E. Wynne Davies, Aberystwyth a chafwyd pregeth rymus. Yr organydd oedd Aldwyth Lewis. Addurnwyd ford hyfryd gyda gosodiadau tymhorol gan Alwen Griffiths. Gobeithiwn fod Alwen yn teimlo'n well ac yn cryfhau ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Bron-glais.

### Derbyn aelodau newydd yn Capel Madog

Ar brynhawn Sul, 20 Medi, mewn gwasanaeth arbennig yng nghapel Madog, derbyniwyd pump o bobl ifainc yr eglwys i gyflawn aelodaeth. Fe'u gwelir yn y llun yng nghwmni'r gweinidog, Y Parchedig Wyn Morris.



O'r chwith: Mared Hughes, Gwen Sims-Williams, Gwilym Sims-Williams, Llŷr Jones a Rheinallt Jones.



Pwrcaswyd organ newydd gan Capel Madog yn ddiweddar ac yn y llun gwelir organyddion yr eglwys yn ei roi ar brawf!! O'r chwith: Marged Haycock, Aldwyth Lewis, Eirian Hughes ac Angharad Rowlands.

# CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Cyfarfu'r Cyngor uchod o dan gadeiryddiaeth y Cyng Owain Morgan ar nos Iau, 29 Hydref. Daeth yn amlwg bellach, a barnu ffordd mae'r gwynt yn chwythu, fod Cyngor Sir Ceredigion yn paratoi'r ffordd i ddadlwytho nifer o'i gwasanaethau a'u gosod ar ysgwyddau'r Cynghorau Cymuned. Enghraifft o hyn fyddai rhoi'r gwaith o dorri porfa a chynnal llwybrau cyhoeddus yn nwylo'r Cyngor lleol i arbed costau; hefyd toiledau cyhoeddus - os ydynt yn yr ardal. Dim ond agor cil y drws fyddai hyn. Golygai hyn bod y trethdalwyr yn talu ddwywaith yn eu trethi, gan y byddai rhaid i'r Cyngor Cymuned godi'r dreth yn sylweddol i ateb costau'r gwasanaethau ychwanegol hyn. Gellir sicrhau trethdalwyr Tirymynach y bydd i'w cynrychiolwyr ymladd yn galed yn erbyn yr awgrymiadau hyn pan ddaw'r amser.

Adroddwyd bod cyfarfod o PACT wedi ei gynnal yn ddiweddar yn Neuadd Rhydypennau. Cyfarfod byr ydoedd gyda nifer o bobl yn cyrraedd ar ddiwedd y cyfarfod gan fod y trefniadau yn anobeithiol ar hyn o bryd.

Bwriedir rhoddi arwydd unwaith et oar lidiart Cae Chwarae Rhydypennau (Cae Piod) i atal perchnogion i fynd a chŵn i'r maes. Hyn yn dilyn cwynion fod carthion ar y cae pêl droed.

Bu trafodaeth hir ynglŷn â chyflwr meinciau yn y gymdogaeth. Penderfynwyd ceisio atgyweirio rhai ohonynt ac efallai yn y dyfodol brynu rhai sydd o ddefnydd ailgylchu.

Yn ei adroddiad misol dywedodd y Cyng Paul Hinge ei fod wedi cael cyfarfod gyda'r swyddogion priodol ynglŷn â phroblem y garthffosiaeth yn yr ardal a'u bod yn cydnabod fod yma broblem ddifrifol a'i bod yn uchel ar restr y blaenoriaethau ganddynt. Mae problem Maesafallen yn dal i rygnu ymlaen gyda bargyfreithwyr erbyn hyn. Diolchodd y Cynghorydd Sir unwaith eto i bawb a gyfrannodd at holiadur y llwybrau diogel, a gobeithir cael cymhorthdal i weithredu rhai o'r awgrymiadau. Dywedodd hefyd bod goryrru yn rhemp yn y pentref, a bod yr heddlu yn bwriadu targedu'r ardal 24ain awr y dydd. (Roedd un cerbyd wedi ei recordio yn gwneud 58 milltir yr awr am 3.30pm ger Ysgol Rhydypennau!) Bydd y golau stryd yn cael ei ddiffodd yn fuan - death tro Tirymynach.

Cafwyd gwybodaeth fod caniatâd cynllunio wedi ei roddi i wneud newidiadau ac estyniad i annedd yn Bryngwyn Canol, Dolau (dau gynllun). Derbyniwyd gwahoddiad i agoriad swyddogol i estyniad Ysgol Rhydypennau ar 10 Tachwedd.

Mewn ymateb i gais oddi wrth Clwb Pêl Droed Bow Street am gyfraniad tuag at gostau'r Noson Tân Gwyllt penderfynwyd cyfrannu £125. Datganodd y Cyng Vernon Jones ei ddiddordeb yn y cais ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth.

Gwnaed y sylw bod problem parcio yn fynych y dyddiau hyn yn Amlosgfa Aberystwyth yn ardal Cwmcynfelyn. Penderfynwyd anfon at y Cwmni sy'n gyfrifol am yr Amlosgfa yn tynnu eu sylw at y mater, ac awgrymu eu bod yn datblygu rhagor o dir yn faes parcio.

**Bydd y cyfarfod nesaf ar 26 Tachwedd.**

# LLANDRE

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn a Christine Griffiths a'r teulu Tynllechwedd Bach ar golli ei thad-cu, sef John Edwards, Annwylfan, Pen-y-garn mis diwethaf.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i May Davies Brynhyfryd, sydd wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Abertawe yn ddiweddar.

### Cyfarfod Treftadaeth Llandre

Tachwedd 26 - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gydag Arddangosfa Hen Luniau a Chreiriau o Landre. Ysgoldy Bethlehem 7.30 o'r gloch.

# PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR

**Prawf Gyrru**

Mae Mrs Ann Burgess, Tanffordd, wedi pasio ei phrawf gyrru yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddi, dim rhagor o ddibynu ar y bws !

**Baban newydd**

Daeth Helen Vardy adref o Sbaen i gael ei baban bach. Ganwyd iddi fab bychan ddechrau Tachwedd. Dymuniadau gorau i'r teulu i gyd.

**Ysbyty**

Dymunwn yn dda i Mr Wynne Jones, Tanygaer, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac i Mrs Mair Jenkins, Pandy, yn ogystal; hithau hefyd wedi bod yn yr ysbyty am fyr amser.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau a phob hwyl i Mr a Mrs John a Siân Spink, 1 Cefnmelindwr, ar ddathliad eu pen blwyddau arbennig.

**Cogyddes yn dod adref**

Cafwyd noson dda dan nawdd Sefydliad y Merched nos Fercher Tachwedd 12fed, yng nghwmni Helen Mcanaulty (gynt) o Langeitho a'i ffrind Eleri. Arddangos coginio dau bryd o fwyd, dri chwrs a wnaethant, a chafwyd gyfle i flasu y bwyd hyfryd ar y diwedd. Arferai Helen fyw ym Mhengraig, Capel Bangor, cyn priodi â ffermwr o Langeitho. Da oedd ei gweld yn ôl yn y pentref, yn sôn sut oedd wedi dechrau ar y coginio. Pob hwyl i'r ddwy yn y dyfodol.

**Merched y Wawr – Cangen Melindwr**

Ar nos Fawrth, 8fed Medi, cyfarfu'r aelodau ar gyfer cyfarfod cyntaf y tymor. Croesawyd pawb gan y llywydd, Beti Daniel. Mrs. Eluned Lewis, Swyddog Cymunedol Airtricity oedd y siaradwraig, ond fel Eluned (Hughes) Brynawelon roedd y mwyafrif o'r aelodau yn ei hadnabod. Fe'i cyflwynwyd gan y llywydd. Soniodd wrthym am yr angen am ddatblygu ynni adnewyddol ac am yr angen i greu mwy o ynni ym Mhrydain.

Ar hyn o bryd mae Nant-y-moch yn un o'r safleoedd sy'n cael ei ystyried ar gyfer datblygu fferm wynt. Clywsom am y gwaith sy'n rhaid ei wneud cyn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer datblygiad o'r fath ac am y trafodaethau a gynhelir gyda'r gwahanol sefydliadau. Cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau i Eluned ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig a rhannodd hithau daflenni a holiaduron ymhlith yr aelodau.

Delyth Davies ddiolchodd i Eluned am ei chyflwyniad a'i sgwrs. Paratowyd cwpanaid ar ein cyfer gan Glenys Jones a Margaret Stephens. Dros gwpanaid trafodwyd materion yn ymwneud â'r mudiad ac â'r gangen. Gwenda Morgan a enillodd y wobr raffl.



**Priodas**

Dymunwn briodas dda i Michellé Fronehedydd, Capel Bangor, sydd wedi priodi yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r pâr ifanc.

Fel arfer bydd yr aelodau yn cyfarfod ar nos Fawrth cyntaf y mis yn Neuadd Bentref Capel Bangor ac mae croeso i aelodau newydd ymuno â ni.

## Y Tincer - MANTOLEN 2008-9

| | | (2008-9) | 2007-8 |
|---|---|---|---|
| **Derbyniadau** | | | |
| Bwrdd yr Iaith | | £1,359.00 | £1,359.00 |
| Cyngor Ceredigion | | £500.00 | £500.00 |
| Cynghorau Cymuned | | | |
| | Y Borth | £35.00 | £50.00 |
| | Tirymynach | £250.00 | £250.00 |
| | Trefeurig | £0.00 | £300.00 |
| | Melindwr | £100.00 | £200.00 |
| | Genaur-glyn | £200.00 | £200.00 |
| Cyfeillion Y Tincer | | £700.00 | £500.00 |
| Gwerthiant | | £4,501.19 | £4,564.70 |
| Hysbysebion | | £328.00 | £826.30 |
| Tincer Trwy'r Post | | £257.00 | £180.60 |
| Rhoddion | | £184.70 | £71.00 |
| Cynnwys Taflenni | | £0.00 | £150.00 |
| Ffair Y Tincer | | £487.60 | £590.15 |
| | | £8,902.49 | £9,741.75 |
| **Taliadau** | | | |
| Argraffu | | £5,790.75 | £6,054.87 |
| Gosodwr | | £1,800.00 | £1,700.00 |
| Teipio | | £600.00 | £600.00 |
| Gweinyddol (Stampiau AYB) | | £160.90 | £161.18 |
| Trysorydd | | £0.00 | £50.00 |
| Golygydd | | £0.00 | £100.00 |
| Man. Hanesyddol | | £5.00 | |
| Noson Cwis | | £211.15 | |
| | | £8,567.80 | £8,666.05 |
| Derbyniadau - Taliadau | | £334.69 | £1,075.70 |
| Mewn Llaw Medi | | £2,939.95 | £3,485.94 |
| Cyfrif Cadw | | £125.00 | £125.00 |

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

ytincer@googlemail.com

## ABER-FFRWD A CWMRHEIDOL

### Gwella

Mae yn dda gweld fod Irfon Meredith dipyn yn well erbyn hyn ar ôl iddo dreulio rhai dyddiau yn yr ysbyty. Mae pawb yn falch iawn o weld y car bach glas yn mynd i fyny ac i lawr ffordd y Cwm unwaith eto!

Cafodd Mair Stanleigh lawdriniaeth ar ei llygad a da yw dweud ei bod hithau hefyd yn gwella yn dda iawn.

### Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â Margaret Davies, Aran Deg, ar golli ei chyfnither yn ddiweddar.

### Urdd y Benywod

Nos Lun 5ed o Hydref daeth Gwenllian Ashley o Amgueddfa Ceredigion atom i sôn am y gwahanol gwiltiau sydd yn cael eu cadw yn yr Amgueddfa. Siaradodd am y ffordd y maent yn gorfod bod mor ofalus wrth drafod rhain gan fod llawer iawn ohonynt yn hen iawn. Cafwyd noson ddiddorol iawn a llywyddwyd y noson gan Carol Marshall.

Nos Lun 2il o Dachwedd treuliwyd noson yng nghwmni Julian Coverdale, paramedig gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans yn Aberystwyth. Croesawyd ef yn gynnes gan Mair Stanleigh. Mae Julian a'i rieni wedi dal cysylltiad â Dolfawr ers i'r diweddar Nick Stanleigh gyfarfod ei rieni pan oeddent yn treulio eu mis mêl yn yr ardal dros 35 o flynyddoedd yn ôl! Bu yn sôn am y gwahanol driniaethau mae y paramedig heddiw yn medru eu gwneud a pwysleisiodd mor bwysig yw i ni fod â manylion am ein cartrefi yn eglur fel bod yr ambiwlans yn gallu ein cyrraedd yn gyflym ar adeg argyfwng. Diolchodd Carol Marshall i Julian am roi o'i amser i ddod atom i Gwmrheidol.

### Llyfr Newydd

Mae Ken Jones, Troedrhiwsebon, wedi bod yn brysur iawn yn paratoi ei lyfr diweddaraf Stone Leeks (Pilgrim Press) sydd ar werth yn y siopau ar hyn o bryd; pris £6.50..

### Marwolaeth

Dydd Mercher Tachwedd 11eg daeth y newydd trist am farwolaeth Vincent Baker, Y Gamlyn, Aber-ffrwd. Daeth ef a'i wraig i fyw i'r pentref nifer o flynyddoedd yn ôl a bu y ddau yn cymryd rhan ym mywyd yr ardal tan i afiechyd ddod ar eu traws y blynyddoedd diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs. Baker yn ei hiraeth a'i cholled enfawr.

## GOGINAN

### Gwella

Mae yn dda gweld fod Irfon Meredith dipyn yn well erbyn hyn ar ôl iddo dreulio rhai dyddiau yn yr ysbyty. Mae pawb yn falch iawn o weld y car bach glas yn mynd i fyny ac i lawr ffordd y Cwm unwaith eto!
Cafodd Mair Stanleigh lawdriniaeth ar ei llygad a da yw dweud ei bod hithau hefyd yn gwella yn dda iawn.

### Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â Margaret Davies, Aran Deg, ar golli ei chyfnither yn ddiweddar.

### Urdd y Benywod

Nos Lun 5ed o Hydref daeth Gwenllian Ashley o Amgueddfa Ceredigion atom i sôn am y gwahanol gwiltiau sydd yn cael eu cadw yn yr Amgueddfa. Siaradodd am y ffordd y maent yn gorfod bod mor ofalus wrth drafod rhain gan fod llawer iawn ohonynt yn hen iawn. Cafwyd noson ddiddorol iawn a llywyddwyd y noson gan Carol Marshall.

Nos Lun 2il o Dachwedd treuliwyd noson yng nghwmni Julian Coverdale, paramedig gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans yn Aberystwyth. Croesawyd ef yn gynnes gan Mair Stanleigh.

Mae Julian a'i rieni wedi dal cysylltiad â Dolfawr ers i'r diweddar Nick Stanleigh gyfarfod ei rieni pan oeddent yn treulio eu mis mêl yn yr ardal dros 35 o flynyddoedd yn ôl! Bu yn sôn am y gwahanol driniaethau mae y paramedig heddiw yn medru eu gwneud a pwysleisiodd mor bwysig yw i ni fod â manylion am ein cartrefi yn eglur fel bod yr ambiwlans yn gallu ein cyrraedd yn gyflym ar adeg argyfwng. Diolchodd Carol Marshall i Julian am roi o'i amser i ddod atom i Gwmrheidol.

### Llyfr Newydd

Mae Ken Jones, Troedrhiwsebon, wedi bod yn brysur iawn yn paratoi ei lyfr diweddaraf *Stone Leeks* (Pilgrim Press) sydd ar werth yn y siopau ar hyn o bryd; pris £6.50..

### Marwolaeth

Dydd Mercher Tachwedd 11eg daeth y newydd trist am farwolaeth Vincent Baker, Y Gamlyn, Aber-ffrwd. Daeth ef a'i wraig i fyw i'r pentref nifer o flynyddoedd yn ôl a bu y ddau yn cymryd rhan ym mywyd yr ardal tan i afiechyd ddod ar eu traws y blynyddoedd diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs. Baker yn ei hiraeth a'i cholled enfawr.

## COLOFNYDD Y MIS - SARA MOSELEY

Fel un sy'n dal i feddwl amdanaf fy hun fel llances ifanc, sioc o'r mwyaf oedd sylweddoli - wrth ymateb i'r gwahoddiad i ysgrifennu'r golofn hon - fy mod bellach wedi bod i ffwrdd o Benrhyn-coch a chyffiniau Aberystwyth am dros chwarter canrif.

Ond, fel y dywedodd yr arwr lleol hwnnw, Dafydd ap Gwilym, 'Anghof ni wna dda i ddyn' a dydw i ddim wedi anghofio un o ble ydw i. Felly pleser mawr oedd cael ysgrifennu.

Ers i mi adael ysgol Penweddig rwyf wedi astudio yn Rhydychen; gweithio am flynyddoedd lawer yn Llundain; a phrofi bywyd bras Cheltenham. Ond pan welais swydd yn arwain gwaith cyfathrebu ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru dair blynedd yn ôl, rhaid oedd ceisio amdani er yr holl anawsterau o symud gyda theulu ifanc a gŵr yn gweithio mewn maes meddygol hynod arbenigol.

Degawd wedi datganoli mi sylwais ar unwaith ar y newid, yn enwedig mewn hunanhyder a'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Ac o'r cychwyn cyntaf, roeddwn yn ymwybodol mai llywodraeth ar gyfer Cymru gyfan yw hon - cyfle i bob un ohonom ddylanwadu ar ein tranc a'n dyfodol. Mae'n hanfodol fod Cymry ym mhob cwr yn gallu ymlynu â hi, gwybod i beth ma hi'n dda a sut i'w defnyddio.

Nawr, yn Aberystwyth, mae cyfle i unrhyw un ymweld â'n hadeilad newydd ym Mharc-y-llyn. Cyfle i ymweld, i drafod ac i ddarganfod sut mae'n gwlad yn cael ei rheoli. Dyma'r ganolfan lywodraethol gyntaf o'i math ac mae gwahoddiad i chi gyd daro i mewn am baned ac i ddweud eich dweud am beth yr hoffech ei weld yn digwydd yno.

Y Bont yw'r enw ar gyfer yr ardal gyhoeddus yn y swyddfa newydd ac mae croeso i unrhyw un alw mewn yn ystod yr wythnos i gael paned yn y caffi, darllen papur newydd neu syrffio'r we. Mae staff y Llywodraeth yno hefyd yn barod i ateb eich cwestiynau ac i helpu gydag unrhyw ymholiadau. Gellir cysylltu â'r Bont drwy e-bost ar ybont@cymru.gsi.gov.uk neu drwy ffonio 0300 062 2021.



**Mae Sara Moseley yn gweithio fel Cyfarwyddwr Cyfathrebu ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru.**

**Y mis nesaf: Jodi Bennett**

# COLOFN MRS JONES

A yw'r byd yn beryclach lle? Nid wyf yn sôn am ryfeloedd a thrasediau cenedlaethol rwan, y cwestiwn ydw i mewn difrif yn ei ofyn yw a yw ein cymunedau ni yn beryclach lleoedd i fyw ynddynt? Mi fyddai digwyddiadau diweddar yn y pentref hwn eu hyn yn awgrymu eu bod, felly hefyd y storiau dyddiol bron am ymosodiadau ar unigolion a theuluoedd, ymosodiadau sydd yn medru arwain at lofruddiaethau a hunanladdiadau. Ac nid am ymosodiadau unwaith ac am byth yr wyf yn sôn, mae rhai trasiediau wedi digwydd yn dilyn ymgyrchoedd meithion yn erbyn unigolion. Ond beth yn union yw achosion yr holl drais hwn ac a oes rhywbeth y medrwn ni, fel unigolion, ei wneud amdano?

Un achos diamheuol yw nad oes cosbi. Mae'r geiriau 'postcode lottery' yn cael eu defnyddio yn aml iawn am y gwasanaeth iechyd ond mae yna loteri tebyg gyda throseddiadau difrifol hefyd. Os ydych chi'n enwog a chyfoethog, fe gewch gosb fechan os nad pardwn, ystyriwch Naomi Campbell. Os ydych chi'n beldroediwr, fe gewch droseddu sawl gwaith cyn cael unrhyw gosb o gwbl, gall o leiaf un ferch ddadlau na fyddai wedi dioddef o gwbl petai Marlon King wedi ei garcharu y tro cyntaf yr ymosododd ar rywun. Ond, wrth gwrs, am ei fod yn beldroediwr, cafodd fyw i gicio eto ym mhob ffordd. A mae eu dilynwyr yn gweld hyn ac yn meddwl eu bod hwythau hefyd yn rhydd i fihafio yr un ffordd.

Ffactor arall, mi dybiaf, yw nad oes gan y tormentwyr unrhyw empathi at eraill nag unrhyw werthfawrogiad o ddyletswydd sylfaenol pob un ohonom i drin eraill fel yr hoffem gael ein trin ein hunain. Mae yna bobl yn ein cymunedau sydd o ddifrif yn methu a sylweddoli fod rhywun sydd yn wahanol iddynt hwy eu hunain yn medru dioddef poen ac sydd o ddifrif yn meddwl fod ganddynt yr hawl i'w tormentio o'r herwydd. A chan eu bod wedi eu magu yn ôl ethos y cyfnod hwn mai'r hyn a fynnant ac a feddyliant hwy sydd yn bwysig, nid yw'r syniad o drin eraill fel chi eich hun yn taro deuddeg o gwbl, yn hytrach fe'i hystyrir yn gonsept henffasiwn - hyd nes, wrth gwrs, y dechreuwch chi eu trin hwy fel y mae nhw'n trin pobl eraill!

Nid yw'r ffaith fod cymaint o deuluoedd un rhiant o gymorth, ychwaith. Tybed nad yw hi yn wir fod gan fachgen angen dylanwad tad yn ei fywyd a thybed nad yw yr un mor wir dweud na fedr merched wrthsefyll a rheoli ymagweddu penderfynol rhai meibion wedi iddynt gyrraedd eu harddegau hwyr?

Mae cymdeithas wedi newid yn ogystal. Bellach pawb a'i ffrindiau yw a chymunedau newyddion yn cael eu creu, cymunedau sydd yn fwy o grwpiau cymdeithasol heb fawr cydgyffwrdd. Mae i'r gymuned hon lefelau pendant, yn amrywio o'r hen ar un ochr i deuluoedd a phlant bychain ar yr ochr arall. A mae'n anodd i'r hen fagu cydymdeimlad â'r ifanc pan nad ydynt, efallai, yn nabod unigolion ifanc yn dda fel unigolion, ac yr un mor anodd i'r ifanc gydymdeimlo â'r hen pan nad ydynt hwythau yn arfer a'r hen. Dyma un o sgileffeithiau tristaf a mwyaf pellgyrhaeddol y gwahanu daearyddol ar deuluoedd a welwyd yn ein cyfnod ni wrth i leoliad daearyddol gwaith a swyddi rannu teuluoedd.

A oes ateb i'r broblem? A ellir mewn difrif cynnig rhyw welliant ar y sefyllfa? Mi dybiaf fi bod atebion posibl. Un ateb yw gofalu mai'r drosedd a'r dioddefydd sydd yn pennu'r gosb ac nid unrhyw ffactor o du'r troseddwr. Rhoddai hyn unffurfiaeth cosb oni fyddai dioddefaint y truan a ymosodwyd arno yn ychwanegu haen arall o gosb at yr un wreiddiol.A byddai'n addysg werthfawr i ddilynwyr enwogion weld eu harwyr yn dioddef. Yr ail beth y gellid ceisio ei wneud yw gofalu fod ystod eang o swyddi ar gael ym mhob cymuned fel nad oes gwahanu teuluoedd wrth i'r rhai iau chwilio am swyddi.Y trydydd peth y dylid ceisio ei wneud yw integreiddio ein cymunedau trwy gynyddu cyfleoedd i'r gwahanol haenau oed gyfarfod â'i gilydd yn gymdeithasol, er enghraifft. Gellid ffurfioli hyn trwy gael ein hysgolion a'n clybiau ieuenctid a'n hysgolion Sul i 'fabwysiadu' cartrefi henoed neu'r henoed yn eu cymuned fel bod yr ifanc yn cael cyfle i ddod i adnabod yr hyn a'r hyn yn cael cyfle i fwynhau cwmni yr ifanc a'i dysgu hefyd. Mae mentora yn air pwysig mewn busnes ar hyn o bryd ond mae'n syniad sownd yn y bon a digon teg fyddai awgrymu fod cymdeithasau o ddynion - neu aelodau eglwys a chapel - yn cynnig bod yn gyfeillion i fechgyn heb dad yn eu harddegau. Mae cynllun o'r fath yn gweithio gyda pheth llwyddiant yn America, eisoes, cynllun y brawd mawr yw'r enw arno a'i holl syniad yw cynnig cwmniaeth i fechgyn arddegol a rhoddi cyfle iddynt ymgymryd â hobiau diniwed. A mi orffennaf fel hyn, mae rhai o'r atebion yn atebion y mae'n rhaid eu creu gan wleidyddion, mae'r olaf yn un y gallwn ni fel cymuned ei wneud. Ond mae'n rhaid wrth ymdrechu ac ymgyrchu i'w hymorol. Beth wnawn ni fel cymuned, gwaredu am y sefyllfa ynteu gweithio i'w newid!


ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w
lladd mewn
lladd-dy lleol

Cysylltwch â
Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

M & D PLUMBERS
Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i
Bensiynwyr;
Yswiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn
gyntaf ar
01974 282624
07773978352

SIOP A
SWYDDFA BOST
PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

GWYNFOR DAVIES
ADEILADYDD

Manteg
Bow Street
Ffôn 828531

Defnydd
Melanie
The Old Exchange Stores
Capel Bangor
(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk
Arbenigwyr mewn cwiltio a
chlytwaith
Dosbarthiadau nos a dydd

ytincer@googlemail.com

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
• Arolygon Adeiladau
• Cynllunio adeiladau newydd.
• Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
• Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

oriel
Tir a Môr
gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

Posh
Paws
Salon cŵn
Torri cŵn i fri safonol
Goginan
Kath 01970 880988
07974677458

JONES JET WASH
Golchi Arbenigol
• Peintio Shediau a lloriau
• Golchi Tai a Shediau fferm
(toeon, gwteru, fasias,
tai gwydr a.y.yb)
•Golchi palmentydd a hewlydd
Am fwy o wybodaeth
ffoniwch Trefor ar
01970 820 934 neu
07967 654720

# PENRHYN-COCH

## Suliau Rhagfyr

**Horeb**
6 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
13 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
20 2.30 Oedfa Nadolig y plant a ieunctid
25 7.30 y bore Cymun bore Nadolig
27 10.30 Oedfa bregethu Gweinidog

**Salem**
Tachwedd
29 10.00 Gweinidog

**Rhagfyr**
13 2.00 Gweinidog
25 10.00 Bethel, Tal-y-bont


Gladys Edwards yn dathlu ei phen blwydd yn 99

## Gladys Elizabeth Edwards (1909 – 2009)

Wrth feddwl am ein ffrind Gladys yn marw ddeufis cyn cyrraedd ei 100 oed rydym yn cofio bod ei mam, Elizabeth Ann Rowlands yn 104 pan hunodd ar 17 Ebrill 1983. Roeddwn yn nabod y ddwy o ddyddiau plentyndod a byddai Gladys yn dweud wrthyf ei bod yn falch fod y babi a welodd yn Nhŷ Newydd (cartref mam a'i theulu) ar ffordd Cwmerfin, ym 1936, wedi tyfu i fod yn bregethwr. Ar ôl dychwelyd i Bow Street a rhodio llwybrau'r hen gynefin byddwn yn cwrdd â Gladys pan bregethwn yn Salem Coedgruffydd a hithau bob amser yn barod i ganmol.

Byddwn yn mynd i'r fflat yn Llys y Brenin i seiadu gyda hi a dysgu llawer am ei thylwyth diddorol a chymeriadau bro mebyd. Roedd ei mam yn gyfnither i'r Parchedig J J Williams (1869 — 1954) a faged yn Nhaigwynion cyn mudo i Benrhiw-ceibr gyda'i deulu, pregethwr, prifardd, emynydd, golygydd ac Archdderwydd Cymru, 1936 — 1939, y ddau dad yn frodyr ac yn feibion Thomas a Margaret (merch Methusalem ac Elizabeth Evans, Argoed Fach, Tal-y-bont) Williams, Llwynprysg a Bronheulwen, Trefeurig. Mam Gladys oedd yr hynaf o'u 7 plentyn ac wedi priodi Evan, mab Evan Rowlands, mwynwr, Troedrhiwfedwen/Penrhiwsiop, Taliesin, cartrefwyd yn Llundain ac addoli yn y Tabernacl King's Cross. Roedd Elfed yno erbyn 1907, ac ef a fedyddiodd Geta (roedd ei phlant Margaret a Gordon a'u teuluoedd yn yr angladd), Tom, Blodwen a Gladys. 'Doeddwn i ddim yn hoffi Elfed', meddai, 'am ei fod yn fy nghusanu wedi imi ddweud adnod ac roedd ei wisgers yn fy nghosi!'

Bu farw Evan y tad ar 18 Ebrill 1916, ac er mai chwech a thri mis oedd Gladys roedd yn cofio Elfed yn arwain y gwasanaeth ar blatfform Paddington a chynulleidfa fawr yn canu 'O fryniau Caersalem...' cyn rhoi'r arch yn y trên. Y fam a'r plant yn falch o weld y tad a'r tad-cu gyda hers geffylau Gogerddan yn eu cyfarfod ar orsaf Aberystwyth a'u dwyn i Fancydarren cyn mynd i'r angladd i Salem trannoeth. Ymwrolodd y fam gyda chymorth ei theulu i fagu'r plant a bu'n weddw am 67 o flynyddoedd.

Cerddai Gladys i Ysgol Trefeurig cyn mynd i Ardwyn yn y dre ond er iddi ddisgleirio yn yr ysgol ramadeg ni allai'r weddw fforddio talu am goleg i'w merch. Ymegniodd Gladys a bu'n athrawes ardderchog, i ddechrau ym Mlaencaron a lletya gyda hen wraig ddu fel y frân, yna i Drefeurig a Phonterwyd gan orffen ym Mhenrhyn-coch. Roedd yn briodol mai yn yr hen ysgol y buom yn hel atgofion amdani wrth y byrddau te wedi'r gwasanaeth yn Salem. Nid aeth Gladys ymhell i gael gŵr gan mai mab Edwards y Teiliwr, Salem, oedd Owen Penry, a fu'n beilot am gyfnod. Bu farw ym 1987. O gofio hir gysylltiad hynafiaid Gladys â chapel Salem a'i bod wedi addoli yno tan eleni, roedd yn briodol inni gynnal y gwasanaeth i ddiolch am ei llafur a'i ffydd yno ar 30 Hydref cyn ei rhoi i orffwys yn ymyl ei hanwyliaid.
**W J Edwards**

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â theulu a chysylltiadau y ddiweddar Gwladys Edwards, Y Fodwen gynt; Hefyd a theulu a chysylltiadau y diweddar John Thomas, Aberystwyth — un o blant yr ardal hon;

 Robert a Gillian Dobson a'r teulu, Caemawr, ar golli cyfnither i Gillian yn ddiweddar;

Ac â Mairwen Jones a'r teulu, Tan-y-berth, ar golli ei hefaill, Hefin Stephens, Hundred House.

## Diolch

Dymuna Mairwen a'r teulu ddiolch i bawb a estynodd eu cydymdeimlad iddynt ar golli ei hefaill, Hefin Stephens, Hundred House, Powys yn ddiweddar.

## Jacqueline Minchin

Bu Jacqueline Minchin, y nofwraig o Benrhyn-coch yn dathlu'n ddiweddar yn dilyn ei llwyddiant ysgubol ym Mhencampwriaethau Gêmau Olympaidd Arbennig Ewrop. Cynhaliwyd y gêmau yn Mallorca, fis Hydref, ac roedd Jacqueline yn un o wyth aelod o


Jacqueline Minchin

dîm Prydain. Roedd y cystadlu'n frwd, gyda thimau o 32 gwlad arall yn Ewrop, ynghyd â gwahanol ranbarthau o Sbaen. Wedi llwyddiant yn y rowndiau cynnar, sbardunwyd Jacqueline i wella eto ar ei pherfformiad yn y rasys terfynol. Cipiodd y fedal aur yn y 50m cefn — gan guro'r cystadleuydd nesaf o 0.1 eiliad. Enillodd fedal arian yn y 100m rhydd. Ac i gwblhau'r gamp nofiodd yr adran rydd o'r ras gyfnewid cymysg, ac roedd y tîm ar ben eu digon i gipio'r fedal efydd.

Mae Jacqueline yn nofio ers yn bump oed ac ar ôl symud i Gymru'n 11, ymunodd ag ADASC ac wedyn Clwb Nofio Gateway. Yn ogystal ag hyfforddi yn Aberystwyth, bu ar nifer o dripiau cyfnewid i St Brieuc. Cynrychiolodd Gymru lawer gwaith ac mae'n teithio'n gyson i Gaerdydd i hyfforddi gyda gweddill tîm Cymru. Bu hefyd yn hyfforddi'n lleol gyda Lynwen Jenkins sy'n ' nabod Jacqueline i'r dim-yn ei gyrru'n galed ac yn gwybod sut i gael y gorau ohoni! Dewiswyd hi i dîm Prydain yn dilyn ei llwyddiant yn y Gêmau Olympaidd Rhanbarthol yng NghaerlÐr yn yr haf — lle eto enillodd fedal aur i Gymru yn y 50m cefn a dwy efydd yn y 50m cefn a'r 50m rhydd yn y ras gyfnewid.

Pob lwc i Jacqueline yn y dyfodol a gobeithio daw rhagor o lwyddiant i'w rhan!

## Gwellhad buan


Dymunwn wellhad buan i Glenys Thomas, Cwmfelin, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

## Neuadd y Penrhyn

Cynhelir Noson Bingo ar nos Wener, 4ydd o Ragfyr yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch. Bydd elw y ras dractorau yn cael ei gyflwyno i'r neuadd yn ystod y noson hon. Cofiwch hefyd am yr Yrfa Chwist Dofednod ar y 21ain o Ragfyr yn y Neuadd. Mae raffl y Nadolig yn mynd o amgylch ar hyn o bryd, cefnogwch! Trwy brynu tocyn sydd yn cynnwys gwobrwyon da. Diolch i'r rhai sydd yn cyfrannu yn hael bob blwyddyn yn gyson i wneud y noson chwist yn un lwyddiannus.

## Merched y Wawr

Nos Iau yr 8fed o Hydref aeth y gangen i ymweld â Chanolfan


Diwrnod Cadoediad (Armistice Day)
Unfed-awr-ar-ddeg, Unfed-dydd-ar-ddeg, Unfed-mis-ar-ddeg o'r flwyddyn 1918.

. . Rhaglen . .

Dadorchuddio'r Cof-Adail.

— THE —

Unveiling Ceremony

— AT —

PENRHYNCOCH

OF THE


Trefeurig War Memorial,

Sunday, 11th day of November, 1923

AT 2 PM.

Under the Auspices of the Trefeurig Branch of the British Legion.

PRIS DWY GEINIOG.


National Anthem—"God Save the King."

Anerchiad agoriadol gan D. M. Hamer (Ysgrifennydd.)

Hymn (Tune Aberystwyth), Reading by Dr. Walter G. Thomas, U.S.A.

Jesu, Lover of my soul,
Let me to Thy Bosom fly,
While the gathering waters roll,
While the tempest still is high;
Hide me, O my Saviour, hide
Till the storm of life is past;
Safe into the haven guide,
O receive my soul at last.

Other refuge have I none;
Hangs my helpless soul on Thee;
Leave, ah! leave me not alone,
Still support and comfort me;
All my trust on Thee is stay'd,
All my help from Thee I bring;
Cover my defenceless head
With the shadow of Thy wing.

Plenteous grace with Thee is found,
Grace to cleanse from every sin;
Let the healing streams abound;
Make and keep me pure within;
Thou of Life the Fountain art;
Freely let me take of Thee.
Spring Thou up within my heart,
Rise to all eternity. Amen.

Darllen Llith gan y Parch. D. Morgan, Cwmsymlog.

PSALM 46.


Emyn (Ton Moab)—
Darllenydd Parch. Llewelyn Morgan, Salem.

Prayer—Officiant—Rev. R. Williams, B.A., Vicar of St. John.

O Almighty God, who art a strong tower of defence unto thy servants against the face of their enemies: We yield thee praise and thanksgiving for our deliverance from those great and apparent dangers wherewith we were compassed: We acknowledge it thy goodness that we were not delivered over as a prey unto them; beseeching thee still to continue such thy mercies towards us, that all the world may know that thou art our Saviour and Mighty Deliverer; through Jesus Christ our Lord. Amen.

O Almighty God, who has knit together thine elect in one communion and fellowship, in the mystical body of thy Son Christ our Lord: Grant us grace so to follow thy blessed Saints in all virtuous and godly living that we may come to those unspeakable joys, which thou hast prepared for them that unfeignedly love thee; through Jesus Christ our Lord. Amen.

Our Father, which art in Heaven, Hallowed by thy Name. Thy kingdom come. Thy will be done, in earth as it is in heaven. Give us this day our daily bread. And forgive us our trespasses, As we forgive them that trespass against us. And lead us not into temptation; but deliver us from evil; For thine is the Kingdom, The Power, and the Glory, For ever and ever. Amen.


Teyrnged i'n meirw gogoneddus—
Henadur J. Barclay Jenkins

Dadorchuddio'r Cof-Adail—
Dr. Abraham Thomas, Major.

Un Munud o ddistawrwydd—
One Minute Silence.

The Last Post by Q.M.S. Albert Burbeck.

Cysegriad o'r Cof-Adail gan y
Parch. Owen E. Williams, Horeb.

Hymn (Tune French), Reading by the Rev. R. Williams, Vicar.

Let saints on earth in concert sing,
With those whose work is done;
For all the servants of our King,
In heav'n and earth are one.

One family, we dwell in Him,
One Church above, beneath,
Though now divided by the stream,
The narrow stream of death.

One army of the living God,
To his command we bow;
Part of the host have cross'd the flood,
And part are crossing now.

E'en now to their eternal home,
There past some spirits blest;
While others to the margin come,
Waiting their call to rest.

Jesu, be Thou our constant Guide;
Then, when the world is given,
Bid Jordan's narrow stream divide,
And bring us safe to heav'n. Amen.


Anerchiad gan Col. G. Fossett Roberts, Capt. Edward Llewellin a J. L. Davies, cynrychiolydd y cyn-filwyr, Aberystwyth.

Emyn (Ton—Crugybar)—
Darllenydd Parch. Owen E. Williams, Horeb.

Placing of Wreaths.

Benediction—Parch. Llewelyn Morgan, Salem.

Anthem Cenedlaethol—"Hen Wlad fy Nhadau"


Rhestr Anrhydedd (Roll of Honour.)

| | |
|---|---|
| Major Sir EDWARD J. WEBLEY PARRY PRYSE | Welsh Reg. |
| Sgt. TREVOR WILLIAMS, Garth | R.F.A. |
| JAMES JAMES, Llwyn | 15th Welsh. |
| BEN MORRIS, Penbont | 14th Welsh. |
| WILLIAM PENWILL, Gogerddan | S.B. |
| ROBERT LEWIS, Brynhyfryd | R.F.A. |
| HENRY DAVIES, Frongoch | R.F.A. |
| WILLIAM J. DAVIES, Cwm Merfyn | S.W.B. |
| DAVID E. JONES, Glanstewi | C. Mill. |
| RICHARD LEWIS, Tynewm | 9th Welsh. |
| WILLIAM J. JAMES, Broncastellan | R.F.A. |

"A'r gwŷr fu dda iawn wrthym ni; ac ni wnaed sarhad arnom ni.

Mur oeddynt hwy i ni nos a dydd."
I. Samuel, xxv., 15-16.

## Cofgolofn

Gwelir yma gopi o raglen y dadorchuddio o gofgolofn gwroniaid y rhyfel byd ar y sgwâr ym Mhenrhyn-coch yn y flwyddyn 1923. Mae'r rhaglen gwreiddiol yn eiddo teulu y ddiweddar Nan Balfour, Bronheulog. Diddorol dros ben a ninnau newydd bod yn cofio am yr anwyliaid a gollir yn y rhyfeloedd bob dydd.

Arad Goch. Cafwyd tipyn o hanes y cwmni gan Mari Turner ac yna gwnaeth ein tywys o amgylch yr adeilad a dweud wrthym beth oedd pob ystafell yn ei olygu i'r theatr. Noson wych. Cafwyd cwpanaid a thrafodaeth ar ddiwedd y noson a diolchwyd i Mari am wneud y noson mor ddiddorol. Mae'r adeilad yn werth ei weld gyda'r ffenest arbennig wreiddiol o'r Capel oedd ar y safle cyn y Theatr.

## Rhedwraig marathon

Llongyfarchiadau i Bethan Lewis, 62 Dolhelyg, a fu'n rhedeg ei marathon cyntaf yn Nulyn dros wyliau hanner tymor. Mae wedi cymryd rhan yn sawl hanner marathon a ras 10k. Ymlaen am yr un nesaf nawr!

## Bedydd

Yn ystod gwasanaeth fore Sul, Tachwedd 15fed bedyddiwyd Cari Elin, sef merch Elgan a Kirsty Rees, Dôl Helyg, Penrhyn-coch gan y Parchg J. Livingstone.

## Urdd Gwragedd Sant Ioan

Ar nos Lun Tachwedd 1af cyflwynwyd Glenda Johnson, ynad heddwch o Lanbedr Pont Steffan, i siarad â'r gwragedd am waith ynad heddwch yn y gymuned.

## Diolch

Diolch i Megan Jones am drefnu noson John ac Alun yn Llety Parc ddechrau mis Tachwedd i godi arian i'r ysgol feithrin ag i bawb wnaeth droi lan ac i'r rhai a oedd wedi noddi y noson; cafwyd noson dda.

## Ymddeol

Roedd cynulleidfa niferus yn bresennol yng Nghyfarfod Blynyddol Cyfeillion y Cyngor Llyfrau yn Aberystwyth ar 10 Hydref 2009 i glywed yr Athro M. Wynn Thomas yn holi Gwerfyl Pierce Jones am ei chefndir a'i gyrfa ym myd llên a llyfrau.

I gloi'r cyfarfod, cyflwynodd Tegwyn Jones, Cadeirydd y Cyfeillion, lythreniad o gerdd i Gwerfyl, a gomisiynwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur gan Gwyn Thomas. Llythrennwyd y gerdd gan Tegwyn ei hun. Dymuniadau gorau i Gwerfyl ar ei ymddeoliad diweddar.

## Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 9 a 16 Rhagfyr.

Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Cylch Meithrin Trefeurig

Yr ydym yn croesawu dau o blant bach newydd, sef Kayla a Melchi.

Buom yn cymryd rhan mewn gwasanaethau Diolchgarwch yn yr Eglwys a Chapel Horeb ac fe roddwyd ffrwythau a melysion i Cartref Tregerddan.

Fe fuom hefyd yn dathlu Diwali.

Cawsom hwyl yn dathlu Noson Calan Gaeaf gyda phlant Ysgol Penrhyn-coch a chawsom sbort yn gwisgo fel gwrachod ac ysbrydion a mwynhau y cŵn poeth.

Yr ydym wedi cael ymweliad gan P. C. Hefin Jones a ddaeth i wneud siwr ein bod yn cadw yn saff yn ystod Noson Guto Ffowc.



Yr ydym wedi cael gwisg ysgol newydd a dyma rhai o'r plant yn edrych yn smart iawn yn eu siwmperi coch. Cawsom fynd i wrando ar Gwenda Owen a'i ffrindiau yn Sbri Di Ri a chawsom hwyl yn canu gyda Sali Mali ac hefyd ar y bws adref o Blas-crug; diolch i Mr Melvyn Evans am ei garedigrwydd.



Mrs Edwina Davies yn derbyn y dysteb oddi wrth y plant a Mrs Price.



Dyma rai fu yn plannu Cennin Pedr yn y gymuned gyda Mrs Gwenan Price a Mr Mervyn Hughes. Cyn bo hir fe fyddwn yn dechrau ymarfer at gyngerdd Nadolig a gynhelir eleni yn y Neuadd ar Ragfyr 17.

### Llongyfarchiadau

Hoffai'r Sir longyfarch Enfys Evans ar gael ei hethol yn Is-gadeirydd C.Ff.I. Cymru ac i Meira Lloyd ar gael ei hethol yn arweinydd Fforwm Ieuenctid C.Ff.I. Cymru. Pob lwc i'r ddwy!

### Cystadlaethau Ff.C.C.Ff.I

Bu merched Clwb Pontsian a Buddug Lloyd yn cynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Hoci 7 bob ochr yn Stafford ar y 11eg o Hydref. Llongyfarchiadau iddynt am ddod yn ail.

### Pwyllgor Blynyddol y Sir

Cafodd Glyn Davies, Lloyd Jack, Felin-fach ei ethol fel Llywydd y Sir a Bronwen Morgan, Bwlch-llan, ei hethol yn is-lywydd y Sir. Etholwyd Arwel Jones, Fron Isaf, Llanarth yn Gadeirydd ac Alwen Jones, Ciliau Aeron yn is-gadeirydd y Sir. Siaradwr gwadd y noson oedd Deryc Rees, Llangynnwr.
Hefyd cyhoeddwyd mai Lledrod oedd enillwyr cwpan y cynnydd mwyaf o fewn aelodaeth ar gyfer y flwyddyn 08-09.

### Chwaraeon Dan Do

Cafodd cystadlaethau chwaraeon dan do eleni ei gynnal yn Neuadd Llanddewibrefi ar y 25ain o Fedi. Cafwyd noson byrlymus a llawn hwyl gyda nifer fawr o aelodau'r Sir yn cymryd rhan o fewn y gwahanol feysydd.
Canlyniad Terfynol
1af— Felin-fach
2il — Pontsian a Llanwenog

### Siarad Cyhoeddus Saesneg

Cafwyd dwy noswaith safonol o siarad cyhoeddus Saesneg yng Ngholeg Felin-fach ar y 1af a'r 2il o Hydref. Y beirniad oedd Ms Wendy Crockett (Darllen), Miss Eirlys Lloyd (Dan 16), Mr David Davies (Seiat Holi) a Mrs Gay Evans (Dadl).

**Canlyniadau**
*Dan 14 oed*
Cadeirydd Gorau a'r Darllenydd Gorau: Bethan Green, Caerwedros
Canlyniad Tîm: 1af Caerwedros A, 2il Llanwenog B, 3ydd Dihewyd

*Dan 16 oed*
Cadeirydd Gorau: Morgan Davies, Mydroilyn

*Siaradwr Gorau:* Sian Downes, Llangeitho
Diolchydd Gorau: Heini Phillips, Llangeitho
Canlyniad Tîm: 1af Llangeitho A, 2il Llangeitho B, 3ydd Pontsian a Chaerwedros

*Dan 21 oed*
Cadeirydd Gorau: Enfys Hatcher, Llanwenog
Siaradwr Gorau: Catrin Jones, Mydroilyn
Canlyniad Tîm: 1af Llanwenog, 2il Pontsian, 3ydd Mydroilyn

*Dan 26 oed*
Cadeirydd Gorau: Lyn Jenkins, Llanwenog

*Siaradwr Gorau:* Hannah Parr, Llangeitho
Canlyniad Tîm: 1af Llangeitho, 2il Pontsian A, 3ydd Pontsian B

*Canlyniad Terfynol:* 1af Llanwenog, 2il Pontsian, 3ydd Llangeitho
Diolch i'r holl feirniaid a'r hyfforddwyr am eu gwaith trwyadl a phob lwc i'r aelodau a fydd yn cynrychioli Cymru yn Llanelwedd ar y 5ed a'r 6ed o Fawrth, 2010.

### Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Teithiodd rhai o aelodau Ceredigion i Fachynlleth ar y 4ydd o Hydref ar gyfer bod yn rhan o'r raglen deledu Dechrau Canu, Dechrau Canmol. Arweinydd y noson oedd Magwen Pughe.

C.FF.I. CEREDIGION
www.yfc-ceredigion.org.uk

**C.Ff.I Ceredigion** — Dathlu 70 mlynedd
Mae'r Sir yn dathlu 70 mlynedd o'i bodolaeth yn 2011 ac felly bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu er mwyn penodi digwyddiadau i ddathlu. Bydd y pwyllgor yn cwrdd nesaf ar y 25ain o Dachwedd am 7:30y.h. yn Nhafarn y Vale, Felin-fach. Mae croeso i bawb gan gynnwys aelodau, swyddogion, cyn aelodau/swyddogion a ffrindiau'r mudiad. Os oes gennych unrhyw hen luniau/video/DVD neu gwybodaeth cyffredinol cysylltwch gyda Mared neu Ann yn y swyddfa ar 01545 571 333 neu ebostiwch ar ceredigion@yfc-wales.org.uk.

### Clwb 200

Dyma enillwyr clwb 200 mis Hydref:
Ifan ac Ann Jones, Pant, Llanddewibrefi
Huw ac Ann Tudor, Tynberllan, Llanilar
Huw ac Angharad Williams, Ael y Bryn, Llanon.

Blaenrhybudd o ddigwyddiadau'r Sir
**Tachwedd 26** — Cwis y Sir
**Tachwedd 21** — Eisteddfod C.Ff.I. Cymru, Venue, Llandudno
**Tachwedd 22** — Hyfforddiant Barnu Trimio Wyn
**Tachwedd 25** — Pwyllgor Dathlu 70 — Tafarn Vale, Felin-fach
**Tachwedd 26** — Cwis y Sir
**Tachwedd 30** a **Rhagfyr 1** — Ffair Aeaf, Llanelwedd
**Rhagfyr 6** — Cymanfa'r Frenhines, Capel y Groes, Llanwnnen
**Rhagfyr 29** — Dawns y Frenhines — Pafiliwn Pontrhydfendigaid

## PLANT CEREDIGION I DDATHLU BYWYD A GWAITH T LLEW JONES

Bydd plant ysgolion cynradd Ceredigion yn dathlu bywyd a gwaith un o awduron plant mwyaf toreithiog a phoblogaidd Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanerchaeron y flwyddyn nesaf. Bu T Llew Jones, fu farw ddechrau'r flwyddyn, yn athro mewn ysgolion cynradd yng Ngheredigion am 35 o flynyddoedd a dros wythnos yr Eisteddfod bydd ei fywyd a'i waith yn dod yn fyw, drwy gyfrwng sioe gerdd newydd sbon a gomisiynwyd ar gyfer yr ŵyl.

Dwynwen Lloyd Evans a'i thîm o Theatr Felin-fach fydd wrth y llyw wrth i'r plant baratoi ar gyfer y perfformiadau ym mhafiliwn yr Eisteddfod nos Fawrth, 1af a nos Fercher yr 2il o Fehefin.

"Rydym eisoes wedi cael nifer o gyfarfodydd i drafod syniadau posib ar gyfer y sioe," medd Dwynwen sy'n hen law ar gyfarwyddo cynyrchiadau mawr, cymunedol ac yn edrych ymlaen at ei sialens ddiweddaraf. "Unwaith i ni gwblhau'r tîm o ysgrifenwyr, fydd yn cynnwys dramodwyr ac awduron talentog, lleol bydd y gwaith o sgriptio yn cychwyn o ddifri.

"Mae dathlu gwaith un o'n awduron lleol, un oedd mor dalentog ac yn ffigwr pobologaidd drwy'r wlad wedi bod yn ddyhead o'r cychwyn," meddai Dwynwen. "Wedi marwolaeth T Llew Jones yn gynharach eleni roedd yna ymdeimlad cryf fod angen creu rhywbeth i anrhydeddu ei waith a'i gyfraniad."

Mae rhaglen wych o gyngherddau a digwyddiadau nos wedi eu cyhoeddi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd y flwyddyn nesaf. Bydd tocynnau ar gyfer y digwyddiadau nos, yn ogystal â thocynnau ar gyfer yr Eisteddfod ar werth o ddydd Mawrth, 1af o Ragfyr.

Bydd y Cyngerdd Agoriadol yn y Pafiliwn, nos Sul 30ain o Fai yn agoriad teilwng i'r ŵyl gyda pherfformiadau gan artistiaid lleol a chenedlaethol. Mae'r Cyngerdd yn argoeli'n noson wefreiddiol fydd yn esgor ar wythnos wych o berfformiadau.

Bydd disgyblion ysgolion uwchradd Ceredigion yn hawlio'r sylw ychydig ddiwrnodau cyn cychwyn yr Eisteddfod gyda sioe newydd, wedi ei chomisiynu yn arbennig ar gyfer yr Eisteddfod yn Theatr Felin-fach. Jeremy Turner o Theatr Arad Goch fydd yn cyfarwyddo a'r perfformiadau i'w gweld rhwng dydd Iau, 27ain o Fai a dydd Llun, 31ain o Fai.

Dywed Aled Siôn, Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, "Mae'r rhaglen o gyngherddau a digwyddiadau gyda'r nos yn rhychwantu unarddeg o nosweithiau ac yn cynnig rhywbeth at ddant pawb, beth bynnag fo'u chwaeth.

"Fe fydd y Cyngerdd Agoriadol yn gyngerdd gwefreiddiol, yn ôl yr arfer. Mae'n argoeli yn gychwyn arbennig iawn i'r ŵyl a byddwn yn cyhoeddi enwau'r perfformwyr yn y Flwyddyn Newydd.

"Hoffwn annog pawb i brynu eu tocynnau mewn da bryd. Pwy a ãyr, efallai y bydd un neu ddau yn ymddangos mewn hosannau Dolig hyd yn oed!"

Am ragor o wybodaeth am y perfformiadau yn ogystal â phrisiau'r tocynnau a sut i brynu, gellir mynd i www.urdd.org / eisteddfod neu ffonio 0845 257 1639.

## O'r Cynulliad – Elin Jones AC



Daeth newyddion da i'r gwasanaeth iechyd ar draws Ceredigion yn ystod mis Hydref wrth i'r Gweinidog Iechyd, Edwina Hart AC, gyhoeddi y byddai'n dileu dyledion hanesyddol Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Roedd y dyledion wedi eu creu cyn i gorff iechyd Hywel Dda ddod i fodolaeth gan Ymddiriedolaethau Iechyd Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro, gyda'r ddwy olaf yn bennaf gyfrifol am y rhan helaeth o'r £40.469 miliwn o ddyled. Bydd dileu'r ddyled yn awr yn galluogi'r Bwrdd Iechyd newydd i ganolbwyntio ar fuddsoddi yn ei gwasanaethau heb orfod cadw llygad ar yr orddrafft!

Bydd Prifysgol Llanbedr Pont Steffan hefyd mewn sefyllfa tipyn cryfach yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog Addysg, Jane Hutt AC, y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu £14.03 miliwn tuag at gefnogi uno'r sefydliad gyda Choleg y Drindod, Caerfyrddin. Mae hyn yn fuddsoddiad sylweddol ac yn tanlinellu ymrwymiad y Llywodraeth i ddyfodol y Brifysgol yn Llambed.

Mae'r brifysgol yn cyfrannu'n helaeth at fywyd addysgol Ceredigion ynghyd ag i'r economi leol, ac fe dynnais i sylw'r Gweinidog Addysg bwysigrwydd y sefydliad wrth i ni gwrdd i drafod dyfodol y Brifysgol.

Mynychais gyfarfod yn ogystal yn ystod mis Hydref gyda'r Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones AC, i drafod yr angen i ailagor Cyffordd Tesco yn Aberteifi. Mae'r Gyffordd wedi bod ar gau ers nifer o flynyddoedd ac argymhelliad y Gweinidog Trafnidiaeth blaenorol oedd y dylid ei chau yn barhaol.

Fodd bynnag, ychydig wythnosau wedi ein cyfarfod, fe dderbyniais lythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog yn cadarnhau ei fod yn bwriadu caniatáu i'r Gyffordd gael ei hailagor drwy ddefnyddio goleuadau traffig. Mae hyn yn sicr yn ddatblygiad i'w groesawu gan y bydd modd i draffig sy'n teithio o'r gogledd tuag at Aberteifi i gael mynediad i'r dref heb orfod teithio drwy'r canol.

Yn olaf, roedd yn faint enfawr i dderbyn gwobr Pencampwr Amaethyddiaeth gan gylchgrawn y *Farmers Weekly* yn ddiweddar yn rhinwedd fy swydd fel y Gweinidog dros Faterion Gwledig. Rwy'n falch iawn bod y gymuned amaethyddol wedi penderfynu cydnabod fy ngwaith dros y diwydiant amaethyddol ac rwy'n edrych ymlaen at barhau i wasanaethu amaethwyr a chymunedau gwledig Ceredigion a Chymru.

**Elin Jones AC**

## CYNGOR CYMUNED TREFEURIG

Cyfarfu'r Cyngor Cymuned nos Fawrth, 20 Hydref, yn Hen Ysgol Trefeurig gyda'r Cadeirydd, Richard Owen, yn llywyddu. Roedd wyth aelod arall yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd Sir. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Melvyn Evans a Tegwyn Lewis.

Nodwyd nad oedd y ffordd yn Nôl Helyg wedi cael ei mabwysiadu gan y Cyngor Sir hyd yma, ond roedd adroddiad a fyddai'n argymell gwneud hynny ar fin mynd o flaen y Cabinet. Roedd y mwyafrif o drigolion Pen-bont wedi llenwi ffurflenni yn cytuno i newid cyfeiriad post yr ardal, a phan geid y ffurflenni'n ôl gan y gweddill gellid eu hanfon ymlaen i'r Post Brenhinol. Roedd llythyr wedi'i anfon at Elin Jones AC yn gofyn am gyngor sut i gael gwelliant i dderbyniad band eang ym mhen ucha'r gymuned y tu draw i'r Penrhyn.

Roedd Dai Rees Morgan wedi bod yng nghyfarfod blynyddol Un Llais Cymru ym Mhontrhydfendigaid ar 10 Hydref, a rhoddodd adroddiad llawn o'r digwyddiad. Bu Richard Owen yng nghyfarfod chwarterol Pwyllgor Ardal Ceredigion o Un Llais Cymru yn Aberaeron ar 8 Hydref; roedd y cyfarfod wedi cael cyflwyniad manwl ar y datblygiadau oedd ar y gweill yn Ysbyty Bron-glais. Cynhaliodd y Cyngor Sir gyfarfod ymgynghorol yn Neuadd Rhydypennau ar 13 Hydref pan ddaeth Keith Evans, Arweinydd y Cyngor, a Bronwen Morgan, y Prif Weithredwr, i gyfarfod cynrychiolwyr o'r cynghorau cymuned lleol ac i drafod materion oedd yn berthnasol i'r ardal. Roedd Kari Walker a Richard Owen wedi bod yn y cyfarfod, a bu'n gyfarfod buddiol. Bu Kari Walker hefyd mewn cyfarfod o bwyllgor ar ddwyieithrwydd yng Nghanolfan Rheidol ar 15 Hydref lle trafodwyd nifer o gynlluniau i hybu defnydd o'r Gymraeg yn lleol.

Penderfynwyd ar y trefniadau ar gyfer gwasanaeth Sul y Cofio ar 8 Tachwedd.

Rhoddodd y Clerc adroddiad manwl am incwm a gwariant y Cyngor am yr hanner blwyddyn hyd at ddiwedd Medi. Penderfynwyd chwilio am brisiau ar gyfer hysbysfyrddau ar gyfer Bancydarren a Salem. Roedd peth niwed wedi'i wneud i ran ucha'r polyn oedd yn dal y faner yn sgwâr y Penrhyn a phenderfynwyd holi i weld a oedd angen polyn newydd ynteu trin y rhan uchaf yn unig. Roedd difrod wedi'i wneud i un o'r byrddau gwybodaeth yng Nghwmsymlog; penderfynwyd ei drin yn syth, a hefyd i gael handlenni newydd ar gyfer yr hysbysfyrddau yn y Penrhyn.


Penderfynwyd y byddai'r Cyngor yn ystyried ceisiadau am grantiau gan gymdeithasau a mudiadau lleol yng nghyfarfod Ionawr, ac y dylai'r ceisiadau gyrraedd y Clerc erbyn diwedd y flwyddyn.

Adroddwyd fod y cais cynllunio canlynol wedi'i ganiatáu: Cwrt, Penrhyn-coch — codi storfa. Ystyriwyd y cais canlynol: 8 Maes Seilo, Penrhyn — estyniad a newidiadau; dim sylwadau.

Mae'r cofnodion llawn i'w cael ar www.trefeurig.org .


Blodau i bob achlysur
**Blodau'r Bedol**
Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur
**Donald Morgan**
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

**CIGYDD BOW STREET**
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

**TACSI EDDIE**

7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

# YSGOL CRAIG-YR-WYLFA

### TAG Rygbi

Ar brynhawn braf yn yr Hydref, cafodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol gyfle i gael hyfforddiant Rygbi TAG yng Nghlwb Rygbi Aberystwyth. Trefnwyd yr hyfforddiant gan Gareth Williams Swyddog Datblygu Rygbi Ceredigion. Cafodd y disgyblion gyfle i firienio eu sgiliau cyn cael ambell i gêm yn erbyn ysgolion eraill. Bu'n brynhawn egniol a hwyliog iawn.



### Ymweliad â'r Amgueddfa

Fel rhan o'u hastudiaethau Bwyd a Ffermio bu disgyblion Adran Iau yr Ysgol yn Amgueddfa Ceredigion yn Aberystwyth. Tray no cawsant gyfle i ddysgu am offer ffermio a dulliau o drin bwyd ers talwm. Hedfanodd y bore, gyda pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr.

### Diolchgarwch

Dydd Iau 15 o Hydref dathlwyd ein cyfarfod diolchgarwch. Eleni cefnogwyd 'Lloches Nos' Aberystwyth. Cafwyd cyflwyniad gan bob dosbarth cyn cael anerchiad gan y Parchedig Ronald Williams, Rheithor.

### Chwaraeon

Bu disgyblion yr Ysgol yn brysur unwaith eto yn ddiweddar. Bu disgyblion yr Adran Iau yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Ysgolion Dalgylch Aberystwyth. Da iawn i bawb am wneud eu gorau. Aeth rhai o'r disgyblion ymlaen i gymryd rhan yng nghystadleuaeth Trawsgwlad, a drefnwyd gan fforwm Athletau Canolbarth Cymru, ar gaeau Penweddig. Bydd y rhai buddugol yn cael cyfle i fynd ymlaen i'r rownd derfynol yn Llanelwedd.

### Gala Nofio'r Urdd

Bu rhai o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 yr Ysgol yn cymryd rhan yng Ngala Nofio'r Urdd yn ddiweddar. Roedd yna gystadlu brwd. Da iawn i bawb a gymerodd ran.





### Pentre Bach

Cafodd plant Cyfnod Sylfaen diwrnod cyffrous ym Mhentre Bach yn ddiweddar ble roedden nhw'n dysgu am datws ac yn dathlu'r wythnos datws . Cafodd y plant gyfle i edrych ar y gwahanol datws sydd ar gael ac yna eu blasu nhw. Cyn mynd adre cafodd y plant gyfle i fynd mewn i'r cae a casglu tatws eu hunain i fynd adre. Roedd pawb wedi mwynhau y diwrnod a dysgu llawer. Diolch yn fawr iawn i Adrian a chriw Pentre bach am y croeso cynnes.

**COFIWCH GEFNOGI EICH PAPUR BRO**

# YSGOL PEN-LLWYN

### Big Pit

Taith hanesyddol gawsom y tymor hwn i lawr cymoedd y de ac i Amgueddfa y Pwll Mawr ym Mlaenafon. Cawsom fynd i lawr o dan ddaear i brofi bywyd y glowr a chael dysgu am gyfleusterau gweithiol ac arferion bywyd yn y pwll glo. Diolch i Miss Helen Davies, Ysgol Llanfihangel am drefnu'r daith.



### Y Brodyr Gregory

Bu'r Brodyr Gregory yn diddanu'r plant eto eleni gyda'u caneuon llawn hwyl. Cawsom drip i Ysgol Syr John Rhys i fwynhau bore o adloniant yn dysgu am reolau'r ffordd fawr, ailgylchu ac amryw o arferion da eraill.

### Diwrnod T. Llew Jones

Buom yn darllen barddoniaeth T. Llew Jones ac yna yn peintio a darlunio ei ddisgrifiadau hynaws o fyd natur. Gwnaethom arddangosfa ar y wal gyda'r gwaith gorffenedig.

### Diolchgarwch

Masnach Deg oedd penawd y Cyfarfod Diolchgarwch eleni. Roedd y ddau ddosbarth wedi cyflwyno gwasanaethau Masnach Deg a chafwyd stori berthnasol gan y Ficer, y Parchg J. Livingstone a chasglwyd swm sylweddol at yr RNLI. Cyflwynwyd yr arian i aelodau o'r RNLI o'r Borth.

### Trawsgwlad

Aeth pedwar o fechgyn Blwyddyn 5 i gynrychioli'r ysgol yn y Trawsgwlad (Ysgolion Canolbarth Cymru). Daeth y tîm yn drydydd. Llongyfarchiadau i Tomos Evans oedd yn 2il, Keiran Evans 4ydd, Gethin a Jo Jones. Gwnaeth y tim yn ddigon da i fynd ymlaen i Aberhonddu i'r rownd derfynol.

### Croeso

Croeso i Mrs Emma Parr-Davies fel athrawes newydd lawn amser yn Dosbarth Un. Rydyn yn dymuno'n dda i chi yn eich swydd newydd yma ym Mhen-llwyn. Hefyd i Miss Catrin Hickin, Aberteifi, fydd yma yn achlysurol.

### Gala Nofio'r Urdd

Aeth tri o blant yr ysgol i Ganolfan Hamdden, Plas-crug i gynrychioli Clwb yr Urdd. Gwnaeth y tri yn arbennig o dda.




Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
Cinio Dydd Sul
Prydau Bar
Partïon
Bwydlen Bwyty
Adloniant
Ar agor o 5:30 p.m. nosweithiau Iau a Gwener am brydiau teuluol

FFRINDIAU CARTREF TREGERDDAN
CYFARFOD BLYNYDDOL YN Y CARTREF
nos Fercher, 25.11.09 am 7 o'r gloch
CROESO CYNNES I BAWB

RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

Gwasanaeth Cynnal M.H.
Gwasanaeth Torri Porfa a Garddio, Peintio, Teilo, D.I.Y. a manion waith eraill o amgylch y tŷ
Disgownt i bensiynwyr
Ffoniwch ni yn gyntaf ar 01970 881090 / 07792457816

AberTechnoFix
Cymorth cyfrifiadurol lleoledig yn Aberystwyth
Cyfrifiadur HELP?
Ymweliad cartref
Ffoniwch
07536 022 067

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Diolchgarwch

Ar ddydd Iau 22ain o Hydref, cynhaliwyd cyngerdd Diolchgarwch blynyddol yr ysgol. Yn dilyn y traddodiad, rhoddwyd groeso i henoed yr ardal i'r achlysur. Cafwyd gwledd o ganu a llefaru graenus o flynyddoedd 1 i 6 ac yn dilyn y perfformiad, cafodd yr henoed gyfle i sgwrsio am ymdrechion y disgyblion dros wledd arall, sef tê hynod a flasus wedi ei baratoi gan staff y gegin. Yn ystod y prynhawn cafwyd anerchiad gan y Prifathro, Mr Adrian Havard, am ein casgliad y flwyddyn hon.'Tŷ Cariad' sy'n elwa eleni. Adeilad ar gyrion Kampala, Uganda yw 'Tŷ Cariad' ar gyfer plant amddifad. Sefydlwyd y lloches amhrisadwy hon ddwy flynedd yn ôl gan gwpwl priod o Dde Cymru. Yn ffodus iawn cafwyd ymweliad gan un o'r sefydlwyr, Mrs Jan Thomas yn ystod fis Hydref. Cafodd y plant gyflwyniad ganddi am 'Dŷ Cariad' a'r gwaith arbennig sydd yn digwydd yno. Ar ddiwedd y prynhawn casglwyd £227.50 i'r elusen.

## Noson Goffi

Ar Nos Fercher, 4ydd o Dachwedd cynhaliwyd noson goffi yn yr estyniad newydd. Pwrpas y noson oedd cynnig cyfle i drigolion yr ardal i ymweld â'r estyniad newydd ac i gymdeithasu. Yn ystod y noson codwyd £350.

## Agoriad Swyddogol Yr Estyniad

Ar y 10ed o Dachwedd agorwyd yr estyniad newydd yn swyddogol. Gwahoddwyd gyn-athrawon a Phrifathrawon o'r gorffennol, Y Llywodraethwyr presennol, Y Cyfarwyddwr Addysg, Mr Eifion Evans a nifer o gynghorwyr Y Sir. Yn dilyn anerchiad gan Mr Caredig Davies (Aelod Cabinet Addysg, Diwylliant ac Hamdden) a Mr Havard y Prifathro; cafwyd perfformiad gan blant Y Cyfnod Sylfaen. Yn dilyn hyn agorwyd yr Estyniad yn swyddogol gan Y Cynghorydd Ivor Williams, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion. I gloi'r achlysur pwysig hwn, cafwyd cyfle i fwynhau paned a chacen a chafwyd taith o gwmpas yr adnodd newydd.

## Adran yr Urdd

Cynhaliwyd Noson Calan Gaeaf Adran Yr Urdd yn yr ysgol yn ddiweddar. Cafodd aelodau'r Urdd gyfle i wisgo gwisg ffansi a mwynhau ychydig o hwyl a sbri'r noson arbennig hon. Cafodd nifer o blant wobrau hael a chytunodd pawb fod y noson wedi bod yn un ddifyr iawn.

## Nofio'r Urdd

Yn dilyn Gala Nofio Rhanbarthol Ceredigion Yr Urdd yn ddiweddar, mae dau blentyn o'r ysgol wedi diogelu eu lle yng Ngala Cenedlaethol yr Urdd yng Ngaerdydd. Mi fydd Lewis Drakeley o flwyddyn 4 a Lucy Ankin o flwyddyn 6 yn teithio lawr yn y flwyddyn newydd. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau a phob lwc iddynt.


Pob lwc i Lucy a Lewis lawr yng Nghaerdydd


Agoriad Swyddogol Yr Estyniad Newydd.


Hwyl Calan Gaeaf


Wynebau cyfarwydd o'r gorffennol yn mwynhau'r agoriad


Trigolion yr ardal yn mwynhau Noson Goffi

# YSGOL PENRHYN-COCH

## Urdd

Ers hanner tymor, bu'r Urdd y n cyfarfod yn wythnosol. Cafwyd llawer o hwyl gan y disgyblion yn chwarae bingo, chwarae gemau bwrdd yn ogystal a sesiwn dawnsio disgo o dan arweiniad Rebecca Thomas. Bydd yr Urdd yn cyfarfod yn wythnosol o hyn hyd at ddiwedd tymor gyda amrywiaeth o weithgareddau wedi eu trefnu dan arweiniad Miss Owens.

## Ynys-hir

Ymwelodd disgyblion blwyddyn 1 a 2 a Gwarchodfa Ynyshir. Er y glaw, a'r tywydd anffafriol, cafwyd bore diddorol iawn wrth i'r disgyblion gael cyfle i weld yr adar amrywiol ynghyd a'r anifeiliaid gwyllt. Cerddwyd drwy'r coed gan astudio'r coed a'r dail. Yna cafwyd cyfle i archwilio bywyd y pwll dwr. Diolch i staff Ynyshir am eu croeso a chafwyd llawer o hwyl wrth ddysgu am natur.

## Siapan

Fel dilyniant i ymweliadau Naomi o Siapan y tymor diwethaf, gwahoddwyd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 i ysgol Penweddig. Pwrpas yr ymweliad oedd i gael cyfle i gymeryd rhan mewn gweithgareddau Siapaneaig. Cafwyd cyfle i flasu bwydydd o Siapan, i ddysgu am sut i beintio llythrennau Siapaneaig, i chwarae gemau amrywiol ac i wneud origami. Cafwyd bore diddorol iawn ym Mhenweddig. Diolch i'r Pennaeth, i Polly Seaton ac i Naomi am y cyfle i ddysgu am Siapan.




## Diolchgarwch

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch cyn hanner tymor. Thema'r Gwasanaeth oedd Diolch am ddwr. Gwahoddwyd Mr Sion Meredith i mewn i sgwrsio a'r disgyblion am ddiffyg dwr yn Affrica. Gwelwyd pob disgybl yn yr ysgol yn cymeryd rhan yn y Gwasanaeth. Diolch i sion am ei barodrwydd i ddod i mewn i sgwrsio a'r disgyblion.

## Diwali

Ers mis Medi, mae y dosbarth derbyn a blynyddoedd 1 a 2 wedi bod wrthi'n cyd weithio yn ffurfiol. Yn ystod y cyfnod hyn, maent wedi bod wrthi yn gwneud llawer o waith ar y cyd ar amryw o themau. Fel rhan o waith thematig y tymor, buont yn astudio am yr Wyl Diwali. Treuliwyd wythnos yn edrych ar y dathliad ac am arferion yn gysylltiedig a Diwali. Gwelwyd holl ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn coginio samosas, losin ac yn gwneud gweithgareddau eraill yn cynnwys paratoi dawns arbennig. Ar ddiwedd yr wythnos croesawyd rhieni'r disgyblion i'r ysgol i gael blas ar y gweithgareddau. Buont wrthi yn cydweithio a'u plant ar amryw o weithgareddau. Ar ddiwedd y prynhawn, bu'r disgyblion yn perfformio dawns arbennig i'w rhieni. Braf oedd gweld cymaitn o rieni wedi dod i gymeryd rhan yn y gweithgareddau.









# TASG Y TINCER



Rhys Tanat Morgan


Mae'n siwr eich bod wedi bod yn brysur yn ddiweddar yn mwynhau dathlu Calan Gaeaf, heb anghofio noson Guto Ffowc, wrth gwrs. Gobeithio na ddaru chi godi gormod o ofn ar eich ffrindiau gyda'ch 'trick or treat', ac i chi gael blas ar y tân gwyllt, ei sŵn a'i liwiau llachar! Rwy'n hoffi noson Calan Gaeaf, ac yn mwynhau eich gweld wedi eich gwisgo fel ysgerbydau ac ysbrydion, ond noson Guto Ffowc yw fy ffefryn. Fuoch chi'n gwylio'r tân gwyllt? Er mod i'n mwynhau gwylio'r rocedi'n hedfan drwy'r awyr, rwy'n teimlo'n flin dros yr hen Guto druan, bob blwyddyn!

Diolch i chi i gyd am liwio llun y gofodwr dewr yn mentro allan o'i long, a braf oedd gweld enwau newydd yn rhoi cynnig arni! Roedd y lluniau'n hyfryd. Da iawn chi. Dyma pwy fuodd wrthi: Gronw Fychan Downes, Glanrafon, Penrhyn-coch; Lili Fflur a Griff Lewis, 11 Broncynfelin, Llangorwen; Gruffudd Ellis, Gwaelod-y-garth, Caerdydd; Garran Thomas, Caerdydd; Rhys ac Elenid Tanat Morgan, Fferm Glanfrêd, Llandre; Llŷr Wyn Evans, Pwllcenawon, Capel Bangor; Sion Wyn Hurford, 38 Dolhelyg, Penrhyn-coch; Teleri Morgan, Gerynant, Dolau; Carwyn Davies, Cynon Fawr, Llanfihangel-y-Creuddyn; Iona Jane Morgan, Garn Rhos, Bow Street; Mirain Gregory, Y Deri, 6 Llwyn Afallon, Aberystwyth.

Wel, mi ges i broblem fawr i ddewis enillydd y tro hwn. Roeddet ti, Iona wedi rhoi baner y Ddraig Goch i dy ofodwr. Dyna dda! Ac roeddwn i'n hoff iawn o liwiau gwisg gofodwr Gruffudd a Garran yn fawr, ond ti, Rhys Tanat Morgan sy'n cael y wobr y tro hwn. Roedd dy ofodwr di mewn gwisg arian, llachar! Llongyfarchiadau, a diolch i bob un ohonoch chi am eich lluniau

Ydech chi'n cofio a ddigwyddodd rhywbeth arbennig ar 9 Hydref eleni? A wnaethoch chi rywbeth gwahanol yn yr ysgol efallai? Wel, roedd yn ddiwrnod cenedlaethol yr awdur a'r bardd T. Llew. Jones ar y diwrnod hwnnw. Rwy'n siwr eich bod i gyd yn gwybod am T. Llew Jones. Yn drist iawn, bu farw T Llew eleni yn 93 mlwydd oed. Ysgrifennodd nifer fawr iawn o lyfrau i blant yn ystod ei oes — 35 ohonyn nhw! Ydech chi'n gwybod rhai o'u henwau? Roedd plant mewn rhai ysgolion wedi gwisgo fel cymeriadau o'i lyfrau ar 9 Hydref, ac rwy'n siwr eich bod wedi darllen rhai o'i lyfrau. Beth am 'Dirgelwch yr Ogof' a 'Tân ar y Comin'? Rwy'n hoffi 'Ofnadwy nos' a 'Dial o'r diwedd'. Mae nifer o'i lyfrau'n llawn môr ladron, sipsiwn, boneddigion, ysbrydion, a lladron pen-ffordd. Os ydych yn hoffi storiau antur, llawn cyffro, byddwch wrth eich bodd efo llyfrau T Llew.

Y mis hwn, beth am liwio llun y môr leidr yn sbio ar y trysor a gipiodd ef a'i griw gwyllt oddi wrth rhyw long ar Fôr y Canoldir? Mae llyfrau T Llew yn llawn digwyddiadau fel hyn, ac rwy'n siwr bod sawl peth aur yn y gist! Anfonwch eich gwaith ata'i erbyn Rhagfyr 1af i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street. Ceredigion, SY24 5DE. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Oed

Rhif ffôn

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

GOLCHDY MAES-Y-MÔR
Stryd y Baddon, Aberystwyth
Ar agor 7 diwrnod
8 y bore - 9 yr hwyr
Golchdy derbyn arian
Gwasanaeth glanhau duvets plu neu ffibr - yr un diwrnod
Gwasanaeth golchi blancedi, llenni a.y.y.b.
Digon o le parcio
FFÔN 639270

ISSN 0963-925X
9 770963 925009
Rhif 323 | TACHWEDD 2009